UK Government

# Ein Map trywydd at reilffordd hygyrch



Tachwedd 2025

© Hawlfraint y Goron 2025.
Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i visit www.nationalarchives.gov.uk/ doc/opengovernment-licence/version/3/ neu cysylltwch â'r Archifau Cenedlaethol yn www.nationalarchives.gov.uk/contact-us
Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael ar ein gwefan yn www.gov.uk/government/organisations/department-for-transport
Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn www.gov.uk/government/organisations/department-for transport



Ein Map trywydd at reilffordd hygyrch

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagair gan y Gweinidog** | **4** |
| **Cyflwyniad** | **6** |
| **Y weledigaeth hirdymor fel y cyd-destun ar gyfer y cynllun tymor byrrach hwn** | **8** |
| **Yr achos dros newid** | **10** |
| **Yr hyn a gyflawnasom eisoes** | **12** |
| **Ein saith maes blaenoriaeth a chynlluniau gwella ar gyfer y map trywydd hwn** | **14** |
| Gwella hygyrchedd ein gorsafoedd a'n trenau | 17 |
| Gwella dibynadwyedd cyfleusterau hygyrchedd allweddol | 23 |
| Gwella cysondeb a dibynadwyedd gwasanaeth Cymorth i Deithwyr | 29 |
| Gwella gwybodaeth i gwsmeriaid | 35 |
| Gwella ymwybyddiaeth o'r consesiynau sydd ar gael a gwella hygyrchedd y sianelau manwerthu. | 41 |
| Gwella'r broses o fonitro profiadau teithio pobl anabl a sut caiff y diwydiant ei ddal i gyfrif. | 47 |
| Data hygyrchedd ar draws y sector | 53 |
| Sut fyddwn ni'n rhoi newid diwylliannol ar waith yn y diwydiant rheilffordd a sicrhau y caiff hygyrchedd ei flaenoriaethu | 55 |
| Amserlen y gwaith cyflenwi | 63 |
| **Y cam nesaf: Great British Railways** | **64** |
| **Rhestr dermau** | **66** |
| **Ôl-nodiadau** | **70** |

# Rhagair gan y Gweinidog



## Mae'r llywodraeth hon yn canolbwyntio ar gyflawni newid gwirioneddol, mesuradwy; newid a fydd yn gwella bywydau pobl ac yn cryfhau ein gwlad.

Mae ein cynllun ar gyfer newid yn uchelgeisiol, ond rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein cenadaethau: gosod seiliau cadarn, tyfu'r economi, adeiladu GIG sy'n addas i'r dyfodol, gwneud Prydain yn arweinydd ym maes ynni glân, sicrhau strydoedd mwy diogel, a dileu rhwystrau rhag cyfleoedd.

Mae rheilffordd sy'n addas i'r dyfodol yn rhan hanfodol o'r broses ar gyfer cyflawni'r cenadaethau hyn. Mae'r rheilffyrdd yn sail i'r economi ac yn cysylltu ein pobl, busnesau a chymunedau. Ond i lawer gormod o bobl, a phobl anabl yn arbennig, mae'r rheilffordd yn parhau'n system o rwystrau. Rhaid i hynny newid.

Rydym eisoes yn darparu gwelliannau: mwy o orsafoedd heb risiau, cymorth gwell i deithwyr, gwybodaeth deithio gliriach, a phrosesau monitro perfformiad cryfach. Ond gwyddom fod angen diwygio strwythurol. Dyna'r rheswm dros sefydlu Great British Railways (GBR) – sy'n canolbwyntio ar anghenion y teithwyr. Bydd GBR yn seiliedig ar ddeddfwriaeth alluogi gref, rhwymedigaethau tryloyw, a llinellau clir o atebolrwydd.

Rhaid i deithwyr fod wrth galon y ffordd mae'r rheilffordd yn gweithredu, gan elwa ar brofiad mwy di-dor, lle na fydd hygyrchedd yn ôl-ystyriaeth ond yn hytrach yn ganolog i bob penderfyniad, o hyfforddi staff i wasanaethau i gwsmeriaid.

Rhaid i'r rhwydwaith rheilffyrdd fod yn hygyrch trwy ddyluniad. Bydd ymagwedd integredig GBR yn caniatáu i wasanaethau, buddsoddiadau, ac arloesedd cael eu cydgysylltu'n well, gan sicrhau y bydd gwelliannau'n cyrraedd pob cwr o'r rhwydwaith.

Yn bwysicaf oll, bydd GBR yn ymwreiddio hygyrchedd wrth galon y rheilffordd – gan sicrhau y bydd pawb yn gallu teithio'n hyderus a gydag urddas. Trwy roi teithwyr yn gyntaf a harneisio cyfleoedd rheilffordd gwirioneddol unedig, bydd GBR yn darparu system drafnidiaeth sy'n gweithio i bawb, yn awr ac am genedlaethau i ddod.

Mae'r Map trywydd Hygyrchedd hwn yn nodi sut yr ydym yn cyflymu'r newid hwnnw. Mae'n ddogfen ymarferol, drawsnewidiol – sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gallwn ei gyflawni yn awr, ac yn gosod sylfeini ar gyfer y gwaith trawsnewid hirach dymor y bydd GBR yn ei arwain. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i seilwaith a thechnoleg, o orsafoedd i Fannau Croeso i archebu tocynnau, a hefyd cymorth i bobl a gwella'r diwylliant o amgylch hygyrchedd trwy ddarparu hyfforddiant gwell ac uwchsgilio a darparu cymorth mwy dibynadwy i deithwyr.

Nid y Map trywydd yw'r gair olaf o ran hygyrchedd, ac nid yw'n ceisio datrys pob her, ond mae'n arwydd clir o fwriad: rydym yn gwneud i Brydain symud yn awr, ac rydym yn gwneud hynny'n gynhwysol.

Nid yw'r Map trywydd yn ddogfen ar wahân ychwaith. Mae'n un rhan o set o strategaethau cydlynol a chynlluniau newid a fydd yn ein symud ni i'r lle mae angen arnom fod.

Mae gwella hygyrchedd ar y rhwydwaith trafnidiaeth yn elfen allweddol o'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Integredig (INTS), a fydd yn pennu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer trafnidiaeth yn Lloegr ac yn pennu ymrwymiadau i'w cyflawni yn ystod y Senedd hon. Byddwn hefyd yn datblygu Siarter Teithio Hygyrch a gaiff ei gyd-ddylunio â theithwyr anabl a'r sector trafnidiaeth ac a fydd yn ategu cynlluniau hygyrchedd aml-ddull, gan ddwyn ynghyd arferion gorau ar draws y dulliau teithio.


Caiff y canlyniadau hirdymor sy'n ofynnol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y rheilffordd, gan gynnwys yr ymagwedd at hygyrchedd, eu nodi yn ei Strategaeth Rheilffyrdd Hirdymor (LTRS).

O'u defnyddio gyda'r Map trywydd hwn, bydd y strategaethau hyn yn llywio'r diwydiant rheilffordd a'i bartneriaid ar y llwybr tuag at reilffordd hygyrch.

Rwyf yn falch o arwain y gwaith hwn fel y Gweinidog dros y Rheilffyrdd. Treuliais fy ngyrfa ym maes trafnidiaeth, a gwn fod rheilffordd hygyrch yn gweithio'n well i bawb.

Cam ymlaen yw'r Map trywydd hwn. Bydd GBR yn mynd â ni yn bellach.

Gyda'n gilydd, byddwn yn adeiladu rheilffordd sy'n gynhwysol, yn atebol, ac yn addas i'r dyfodol.



**Yr Arglwydd Hendy o Richmond Hill CBE**
Gweinidog Gwladol (Gweinidog dros≈y Rheilffyrdd)

# Cyflwyniad

**Mae'r rhwydwaith rheilffordd yn ymwneud â chymaint yn fwy na mynd o'r naill le i'r llall. Mae trenau'n rhan hanfodol o'n cymunedau ac yn achubiaeth i lawer na fyddai'n gallu teithio fel arall. Maent yn agor cyfleoedd fel swyddi ac addysg, maent yn galluogi mynediad i ofal iechyd, ac maent yn cysylltu pobl â ffrindiau a theulu.**

Mae hyn oll yn cyfrannu at wella iechyd a llesiant pobl, gwella twf economaidd, a chefnogi cymunedau sy'n ffynnu.

Hoffem i bawb fod â'r gallu i deithio'n hyderus ar y trên, ni waeth beth yw eu hanghenion o ran hygyrchedd. Mae hyn yn golygu dileu rhwystrau sy'n gwneud teithio ar drên yn anodd.

Mae'r Map trywydd Hygyrchedd yn nodi'r gwelliannau o ran hygyrchedd sy'n cael eu cyflawni cyn sefydlu Great British Railways (GBR) gyda'r nod o greu rhwydwaith rheilffyrdd mwy cynhwysol a hygyrch. Mae'n dangos sut mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) yn gwneud gwelliannau ystyrlon ac yn cyflenwi mwy o deithiau hygyrch yn y tymor agos.

Mae'r Map trywydd Hygyrchedd yn cyfeirio at Gymru, Lloegr a'r Alban.

Cynllun trawsnewidiol yw'r Map trywydd Hygyrchedd sy'n eistedd ochr yn ochr â gwaith ehangach i lunio a sefydlu Great British Railways (GBR).

Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth a fydd yn sail i broses sefydlu GBR, ac yn bwysig, y lluniad trefniadol a fydd yn pennu sut y bydd GBR yn ymwreiddio hygyrchedd, a'r corff gwarchod newydd a fydd yn dal GBR yn atebol.







# Y weledigaeth hirdymor fel y cyd-destun ar gyfer y cynllun tymor byrrach hwn

**Y weledigaeth hirdymor yw rheilffordd lle gall yr holl deithwyr deithio'n annibynnol, yn ddiogel, a gydag urddas. Rheilffordd lle mae hygyrchedd wedi'i integreiddio'n llwyr yn ei dyluniad, ei gweithrediad a'i diwylliant.**







## Yn ymarferol, mae hyn yn golygu:

Rhwydwaith rheilffordd lle mae gorsafoedd a threnau'n hygyrch, gyda gwasanaethau cymorth dibynadwy sy'n gweithio i deithwyr.

Rhwydwaith rheilffordd lle mae hygyrchedd wedi'i ymgorffori o'r cychwyn, nid yn ôl-ystyriaeth, ac wedi'i integreiddio ar bob cam, o archebu tocyn i deithio ar drên, wedi'i llywio'n uniongyrchol ac wedi'i benderfynu trwy ymgysylltu'n ystyrlon â phobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli.

Gwybodaeth glir a hygyrch am deithio er mwyn helpu i'r holl deithwyr lywio'u ffordd yn hawdd mewn gorsafoedd ac ar drenau.

Diwylliant o wasanaeth i gwsmeriaid rhagorol, gyda staff wedi'u hyfforddi'n dda ac wedi ymrwymo i helpu i gefnogi teithwyr anabl.

Y gallu i harneisio arloesi, i ddileu rhwystrau'n gyflymach, gan wneud teithio ar drên yn fwy cynhwysol trwy ddyluniad.

Mae hefyd yn golygu gwneud cynnydd ar faterion sy'n effeithio ar bob teithiwr, ond sydd ag effaith arwyddocaol ar deithwyr anabl, gan gynnwys:

System docynnau symlach a thecach, gyda gwybodaeth hawdd i ddeall am y disgowntiau sydd ar gael, a phrofiad archebu tocynnau sy'n gyson a hygyrch.

Gwasanaeth trên mwy dibynadwy, sy'n gwarantu y bydd y cwsmer yn cyrraedd pen ei daith bob tro.

Rydym wedi ymrwymo i wneud y cydymdrech sydd ei angen ym meysydd polisi a chyflenwi i wireddu'r weledigaeth hon. Bydd y Map trywydd yn sail i'r gwaith o fwrw ymlaen â hyn gan GBR. Er y bydd yn cymryd amser i sefydlu elfennau ohono fel y corff gwarchod a GBR, mae'r Map trywydd hwn yn pennu'r meysydd blaenoriaeth a'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd yn awr.

Ein Map trywydd at reilffordd hygyrch

# Yr achos dros newid

## Cafwyd cynnydd sylweddol i wella hygyrchedd y rheilffordd yn ystod y ddau ddegawd diwethaf.

Mae'r gwasanaeth Cymorth i Deithwyr, sy'n helpu teithwyr i ddefnyddio gwasanaethau trên a llywio trwy orsafoedd, a'r rhaglen Mynediad i Bawb, sy'n creu gorsafoedd heb risiau, wedi cyflawni buddion gwirioneddol i deithwyr. Gellir archebu cymorth gyda rhybudd o gyn lleied â dwy awr cyn ymadael, ac mae 1,431 o orsafoedd (56%) yn cynnig lefel da o fynediad heb risiau[1]. Ers cyflwyno deddfwriaeth Hygyrchedd Cerbydau Trên yn 1998, cyflwynwyd mwy na 13,500[2] o gerbydau trên hygyrch newydd i'r rhwydwaith, gyda lleoedd ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, toiledau hygyrch, a darpariaeth well o wybodaeth.

I lawer, teithio ar drên yw un o'r ffyrdd mwyaf ymarferol ac uniongyrchol o deithio sydd ar gael, ac mae'n gallu cynnig ymdeimlad o ryddid nad yw dulliau eraill o deithio'n ei wneud yn aml. Fodd bynnag, i deithwyr ag anghenion hygyrchedd, gall defnyddio'r rheilffordd fod yn brofiad anodd a rhwystredig, lle yn rhy aml nid yw'r cyfleusterau a chymorth yn cyrraedd yr hyn a ddisgwylir, ac mae rhwystrau'n parhau sy'n atal pobl anabl rhag teithio'n hyderus. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod pobl anabl yn gwneud 25% yn llai o deithiau na phobl nad ydynt yn anabl (53% yn llai yn achos y rheilffordd)[3]. Hoffem newid hynny, gan fod cyflenwi rheilffordd fwy hygyrch yn gwneud synnwyr ar bob lefel.

Amcangyfrifir bod 16 miliwn o bobl anabl yn y DU[4] – sef chwarter y boblogaeth. Er hynny, yn 2021 amcangyfrifodd yr Adran Drafnidiaeth nad oedd 31% o boblogaeth anabl Prydain Fawr yn defnyddio trenau[5], Mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn 2022, dywedodd 34% o'r teithwyr anabl wrth Transport Focus y byddant yn defnyddio mwy o drenau yn y dyfodol petai gwelliannau i hygyrchedd yn cael eu gwneud. Ar adeg pan fod cynyddu niferoedd teithwyr yn hanfodol, er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y rhwydwaith rheilffyrdd ac i leihau allyriadau carbon a gwthio twf economaidd cynhwysol hefyd, mae gwella hygyrchedd yn bwysicach nag erioed. Mae cyflawni hygyrchedd yn hanfodol i ddatgloi mwy o refeniw rheilffordd a galluogi buddion economaidd ehangach ledled y wlad.

Mae gwneud system reilffyrdd y DU yn fwy hygyrch o fudd i bawb. P'un ai'n berson anabl, yn rhiant gyda phram, rhywun sydd wedi torri ei goes, seiclwr, person hŷn, neu rywun sy'n teithio gyda bagiau trwm; mae seilwaith hygyrch yn gwneud teithio'n haws, yn fwy diogel ac yn fwy cynhwysol i bawb.

Fodd bynnag, er bod gwelliannau i wasanaethau fel gwybodaeth deithio hawdd i ddeall, cymorth dibynadwy neu fynediad heb risiau i'r holl blatfformau o fudd i bawb, gallant fod y gwahaniaeth rhwng teithio neu beidio i berson anabl. Maent yn fwy na chyfleusterau; maent yn angenrheidiau sy'n galluogi pobl anabl i gymryd rhan mewn byd gwaith, addysg, gofal iechyd, a bywyd cymdeithasol.

Mae rheilffordd fwy hygyrch yn helpu i greu cymdeithas fwy cysylltiedig, cynhwysol a theg, yn creu buddion uniongyrchol i'r economi ac yn ei hybu.



# Yr hyn a gyflawnasom eisoes

## Mae gwelliannau ystyrlon eisoes yn digwydd ledled y rhwydwaith rheilffyrdd i wella hygyrchedd teithiau ar drên.

Cyflawnwyd 31 o brosiectau Mynediad i Bawb y flwyddyn ariannol hon hyd at 31 Hydref 2025. Bwriedir cwblhau chwe phrosiect Mynediad i Bawb ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

- Lansiwyd Cam 5 Cymorth i Deithwyr ym mis Ionawr 2025. Yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, bydd y cam hwn yn parhau i gyflawni gwelliannau i'r broses o archebu tocyn, gofyn am gymorth a chadw sedd mewn un trafodiad, ac yn galluogi cwsmeriaid i gyfathrebu'n uniongyrchol â staff hefyd.
- Cafodd Mannau Croeso eu treialu mewn 37 o orsafoedd. Asesodd y treial effeithiolrwydd Mannau Croeso o ran cynnig canolbwynt cyson i deithwyr dderbyn gwybodaeth a chymorth, ac er mwyn iddynt gysylltu â staff. Roedd y treial yn cynnwys gwerthuso effeithiolrwydd technoleg gynorthwyol Mannau Croeso o ran rhoi gwybodaeth hygyrch i deithwyr am orsafoedd a theithio, ynghyd ag opsiynau i geisio cymorth.
- Diweddarwyd y data Archwilio Hygyrchedd Gorsafoedd yn gynhwysfawr a'i ddefnyddio i ddiweddaru tudalennau Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol, gan gynnig gwybodaeth glir a chywir i deithwyr am y cyfleusterau sydd ar gael mewn gorsafoedd. Yn ogystal, bydd y wybodaeth hon yn cefnogi penderfyniadau buddsoddi, ac yn helpu i wella cynllunio teithiau i deithwyr.
- Lansiwyd cystadleuaeth Innovate UK gwerth £800,000 i ddatblygu technoleg ar gyfer darparu gwybodaeth glywedol a gweledol ar wasanaethau bysiau sy'n rhedeg yn lle trenau.
- Cyflwynwyd cyhoeddiadau teithio mewn Iaith Arwyddion Prydain (BSL) yn rhai o orsafoedd rheilffordd prysuraf y wlad, ac mae sgriniau gwybodaeth i deithwyr yn rhoi diweddariadau am deithio a'r cyngor diweddaraf ag arwyddion i deithwyr byddar.




- Sefydlodd RDG broses apeliadau clir a hygyrch i'r rhai sy'n ymgeisio am Gerdyn Person Anabl, gan roi i'r rhai a wrthodwyd y cyfle i herio penderfyniadau trwy gyflwyno dogfennau ychwanegol neu egluro eu hamgylchiadau.
- Mae'r Ombwdsmon Rheilffyrdd[6] wedi cymryd camau i wella profiad defnyddwyr a hygyrchedd ei wasanaeth cwynion yn 2025, fel ymateb i ymchwil a gomisiynwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhoi gwefan hygyrch newydd ar waith sydd ag ystod o nodweddion hygyrchedd a dyluniad gwell.

# Ein saith maes blaenoriaeth a chynlluniau gwella ar gyfer y map trywydd hwn

**Yn ystod y cyfnod cyn sefydlu GBR ac yn ystod y senedd hon, cyflawnir gwelliannau mewn saith maes blaenoriaeth.**

Defnyddiwyd canfyddiadau allweddol o waith ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Adran Drafnidiaeth i'r rhwystrau a wynebir gan ddefnyddwyr anabl a defnyddwyr nad ydynt yn anabl wrth deithio ar drenau, cyhoeddiadau eraill, a phrofiad byw pobl anabl ac arbenigwyr hygyrchedd i ddatblygu'r blaenoriaethau a gwelliannau hyn. Nodir y rhain isod, heb fod mewn trefn benodol.

Mae gan bob gweithred sefydliad arweiniol dynodedig sy'n gyfrifol ac yn atebol am ei gyflawni, ac am adrodd ar gynnydd a chanlyniadau.

Bydd yr Adran Drafnidiaeth yn gweithio'n agos â'r sefydliadau hyn i sicrhau bod y Map trywydd yn cyflawni ei amcanion.





- Gwella hygyrchedd ein gorsafoedd a'n trenau.
- Gwella dibynadwyedd gwasanaethau trên a chyfleusterau hygyrchedd allweddol.
- Gwella ymwybyddiaeth o'r consesiynau sydd ar gael a gwella hygyrchedd sianelau manwerthu.
- Sut y byddwn yn gweithredu newid diwylliannol yn y diwydiant rheilffordd a sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i hygyrchedd.
- Gwella cysondeb a dibynadwyedd gwasanaeth Cymorth i Deithwyr.
- Gwella gwybodaeth i gwsmeriaid.
- Gwella'r gwaith o fonitro profiadau teithio pobl anabl, a sut caiff y diwydiant ei ddwyn i gyfrif.






1

# Gwella hygyrchedd ein gorsafoedd a'n trenau

**Adeiladwyd llawer o 2,581 o orsafoedd rheilffordd Prydain Fawr cyn sefydlu'r safonau hygyrchedd modern, sy'n golygu bod llywio ar eu hyd yn her i lawer o bobl anabl.**

O ystyried data a ddiweddarwyd yn ddiweddar gan ein (yr Adran Drafnidiaeth) harchwiliad, mae gan oddeutu 56% o orsafoedd ac oddeutu 66% o'r 1.3 biliwn o deithiau sy'n digwydd ar y rhwydwaith fynediad heb risiau i blatfformau.

Mae mynediad gwastad i drenau'n brin (annibyniaeth o'r stryd i'r sedd) ac ar gael dim ond mewn 4% o orsafoedd.

Mae'r camau gweithredu canlynol ar y gweill er mwyn mynd i'r afael â hyn:



a. **Cynyddu nifer y gorsafoedd â mynediad heb risiau i'r platfform.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail, parhaus hyd at 2029).

Neilltuwyd £373 miliwn dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni prosiectau Mynediad i Bawb, yn darparu mynediad heb risiau o fynedfeydd gorsafoedd i blatfformau a rhyngddynt, ynghyd â gwaith hanfodol arall i ddiweddaru hygyrchedd. Bydd y gwaith hwn yn cynyddu nifer y gorsafoedd heb risiau ledled Prydain Fawr o 56% i 58%.

Bydd y gwelliant hwn yn hwyluso teithio, gan gynnig mynediad heb risiau mewn gorsafoedd sy'n cynnwys cyfran fwy o'r holl deithiau rheilffordd – o 66% i 71% - ar sail gwerthiannau tocynnau 23/24.

Ategir y gwelliannau hyn gan gynlluniau heb risiau mewn gorsafoedd a gyflawnwyd trwy fuddsoddiadau mawr yn y rheilffordd fel Uwchraddio Llwybr TransPennine a Rheilffordd Dwyrain Gorllewin, a fydd yn cynyddu nifer y gorsafoedd heb risiau ymhellach. Bydd swyddfa raglen genedlaethol ddynodedig yn cynnal trosolwg o'r gwaith hwn i gyflawni'r rhaglen, gyda gwaith adrodd ar gynnydd mwy tryloyw ar gael i'r cyhoedd.

**Diwygio'r rhaglen Mynediad i Bawb**

Er mwyn rhoi terfyn ar y dull byrdymor, dechrau-gorffen o wella hygyrchedd, bwriadwn drosglwyddo at raglen dreigl gydag ymrwymiad o hyd at £70 miliwn y flwyddyn.

Bydd yr arian cyson hwn yn ein galluogi i gynllunio'n hirdymor a chyflenwi'n fwy effeithiol, gan roi mwy o sicrwydd i'r rhaglen a'r gadwyn gyflenwi sy'n ei chefnogi.

Fel rhan o'r gwaith i sefydlu Great British Railways, byddwn hefyd yn diwygio'r rhaglen Mynediad i Bawb yn fwy eang. Caiff y gwaith hwn ei lunio trwy ymgynghori â phobl anabl a chyrff trafnidiaeth lleol, gan sicrhau y bydd eu lleisiau'n dylanwadu'n uniongyrchol ar sut bydd y rhaglen yn datblygu yn y dyfodol.

b. **Cyllideb gwaith bach sy'n cefnogi prosiectau aml-flwyddyn.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail a'r cwmnïau trên, rhaglen dreigl o 2025 ymlaen).

Bydd Cronfa Hygyrchedd Gwaith Bach aml-flwyddyn yn rhoi cyllidebau cyson i gwmnïau trên er mwyn iddynt gyflawni gwelliannau bach ond pwysig ar draws eu rhwydweithiau. Er yn gymharol fach yn unigol, gall y cynlluniau hyn gael effaith drawsnewidiol gronnol ar hyder ac annibyniaeth teithwyr anabl.

Mae cynlluniau arferol yn cynnwys gwelliannau i arwyddion, seddi, goleuadau, dolenni sain, dynodi llwybr â phalmentydd botymog, podiau synhwyraidd, mannau tawel, a gwelliannau heb risiau ar raddfa fach. Bydd angen i'r Cwmnïau Trên nodi sut y byddant yn defnyddio'u dyraniadau blynyddol, gan adnabod a blaenoriaethu cynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r bylchau mwyaf pwysig ar eu llwybrau.

Caiff y broses hon ei llywio gan ddata'r archwiliad hygyrchedd cenedlaethol, gyda blaenoriaethau lleol yn cael eu llunio trwy ymgynghori â theithwyr anabl a rhanddeiliaid cymunedol, gan sicrhau y bydd gwelliannau'n adlewyrchu profiad byw.





Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, bydd Network Rail yn darparu pedwar toiled Changing Places ychwanegol — sef toiledau cwbl hygyrch â theclyn codi – erbyn 2029, gan sicrhau y caiff teithwyr sydd angen arnynt y cyfleusterau arbenigol hyn eu cefnogi'n well i deithio'n hyderus.

c. **Strategaeth hirdymor ar gyfer cerbydau a seilwaith.** (Arweinydd: yr Adran Drafnidiaeth, diwedd 2026).

Bydd y strategaeth hirdymor ar gyfer cerbydau a seilwaith, y mae'r llywodraeth yn disgwyl ei chyhoeddi yn 2026, yn cynnwys ein hymagwedd at wella mynediad gwastad i drenau ac yn nodi'r hyn sydd ei angen gan drenau a seilwaith yn y dyfodol, er mwyn caniatáu i bobl fynd ar drenau'n fwy hwylus. Bydd safbwynt system-gyfan gan y strategaeth – yn ystyried anghenion y fflyd a chanlyniadau dewisiadau cerbyd yn y dyfodol ar seilwaith, fel cydnawsedd platfformau a'r cyfle i fandadu ar gyfer dylunio trenau newydd ag uchderau llawr sy'n cyfateb i uchder y platfform.

- I lywio'r strategaeth hon, rydym yn comisiynu astudiaeth gynhwysfawr o fynediad gwastad i drenau er mwyn adnabod a chwmpasu atebion ymarferol, cost-effeithiol i gyflawni mynediad gwastad i drenau ar draws lleoliadau â blaenoriaeth ar y rhwydwaith rheilffordd. Fel rhan o'r astudiaeth hon, byddwn yn gofyn i gwmnïau trên weithio gyda Llwybrau a Rhanbarthau Network Rail i ganfod ac asesu opsiynau ar gyfer gwneud cynnydd yn fuan o ran mynediad gwastad i drenau yn yr ardaloedd a wasanaethir ganddynt.

  Mae'r astudiaeth yn sylfaen ar gyfer adnabod camau allweddol, cerrig milltir, ac argymhellion i gyflymu cynnydd, gan lywio buddsoddiad hirdymor mewn seilwaith a manylebau a chynllunio cerbydau yn y dyfodol.

- Byddwn hefyd yn ei wneud yn ofynnol i'r holl drefniadau caffael trenau newydd gynnwys gofynion sy'n sicrhau y caiff cynnydd ei wneud o ran mynediad gwastad i drenau. Caiff yr union ofynion i'w cynnwys mewn trefniadau caffael yn y dyfodol eu llywio gan allbynnau'r astudiaeth mynediad gwastad i drenau a ddisgrifir uchod. (Mae hyn yn berthnasol i'r cwmnïau trên hynny y mae'r Adran Drafnidiaeth yn gyfrifol amdanynt).

d. **Canllawiau dylunio cynhwysol ar gyfer trenau newydd a threnau wedi'u hadnewyddu.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail, haf 2026).

Bydd fersiwn diwygiedig o'r Gofynion Trên Allweddol ar gyfer cerbydau trên (y canllawiau ar gyfer pennu manylebau caffael i drenau newydd a threnau wedi'u hadnewyddu) yn cynnwys pennod ddynodedig ar hygyrchedd, wedi'i chyd-lunio trwy ymgynghori â phobl anabl a grwpiau cynrychiolwyr.

Bydd y canllawiau'n cyfundrefnu arferion gorau sy'n codi o ymarferion caffael cerbydau diweddar, ac yn sicrhau y caiff anghenion teithwyr ag ystod eang o anghenion corfforol, synhwyraidd a niwrolegol eu hadlewyrchu'n llawn. Bydd yn gosod disgwyliadau tu hwnt i gydymffurfiaeth sylfaenol â deddfwriaeth, yn gosod arferion gorau a phrofiad byw fel y meincnod.

Bydd yn ofynnol i gwmnïau trên sy'n caffael trenau newydd neu drenau wedi'u hadnewyddu i gyfeirio at y canllawiau hyn, gan sicrhau y bydd y penderfyniadau terfynol o ran dylunio a manylebau'n cael eu llywio gan fewnbwn o arbenigwyr a theithwyr. Bydd hyn yn hybu mwy o gysondeb ac yn gwella cynhwysedd ar draws y rhwydwaith yn sylweddol.

e. **Arian arloesi wedi'i dargedu at ddatrysiadau ar gyfer mynediad gwastad i drenau, Cystadleuaeth Gyntaf o'i Fath.** (Arweinydd ariannu: yr Adran Drafnidiaeth, arweinydd cyflenwi: Innovate UK. Y prosiectau'n dod i ben erbyn mis Mawrth 2026).

Mewn partneriaeth ag asiantaeth Innovate UK, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi ariannu cystadleuaeth 'Cyntaf o'i Fath', sy'n canolbwyntio ar y rhyngwyneb Platfform-Trên. Mae llawer o'r cynigion a gyflwynwyd yn offer digidol, apiau a phlatfformau technoleg wedi'u dylunio i fesur, cyfathrebu a deall yn well graddfa a lleoliad bylchau rhwng y trên a'r platfform.

Er na fydd y prosiectau hyn yn cynnig datrysiadau corfforol ynddynt eu hunain, byddant yn darparu tystiolaeth, data a mewnwelediad gwell ar gyfer llywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol, ac yn canfod lle mae'r angen mwyaf am fynediad gwastad i drenau. Yn y tymor hirach, bwriad y rhaglen hon yw paratoi'r ffordd ar gyfer datrysiadau sy'n barod i'r farchnad a fydd yn helpu i leihau neu ddileu bylchau wrth fynd ar y trên ledled rhwydwaith rheilffordd y DU.

## Amserlen y gwaith cyflenwi

2025

a — Cynyddu nifer y gorsafoedd â llwybr heb risiau i'r platfform.

b — Cyllideb Gwaith Mân, yn cefnogi prosiectau aml-flwyddyn.

2026

e — Cyllid Innovation wedi'i dargedu at gystadleuaeth 'Gyntaf o'i Fath' i ganfod datrysiadau ar gyfer mynediad gwastad i drenau.

d — Canllawiau dylunio cynhwysol ar gyfer trenau newydd a threnau wedi'u hadnewyddu.

c — Strategaeth hirdymor ar gyfer cerbydau a seilwaith.

2027

2028

2029

# Astudiaeth achos: Gwaith gwella ar raddfa fach yng ngorsafoedd TransPennine Express

Mae TransPennine Express wedi gallu cwblhau nifer sylweddol o welliannau i hygyrchedd mewn gorsafoedd ar draws ei rhwydwaith trwy ddefnyddio ei arian Gwaith Mân.

- Bellach mae gan yr holl doiledau hygyrch, gan gynnwys y rhai yn Cleethorpes, Dewsbury, Grimsby a gorsafoedd eraill, silffoedd, bachau, drychau a chyfleusterau gwaredu sy'n bodloni safonau Colostomy UK.
- Cyflwynwyd canllawiau newydd, rampiau ag wynebau newydd, grisiau o liwiau cyferbynnol, wynebau gwrthslip a phalmentydd botymog wedi'u hailosod yng ngorsafoedd Dewsbury, Grimsby a Scunthorpe i wella diogelwch a defnyddioldeb. Gwellhawyd rampiau seiclo hefyd.

**Dywedodd Chris Jeffery, arweinydd hygyrchedd TPE:**

> **"Rydym yn falch bod y diweddariadau hyn yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cwsmeriaid. Dylai pawb fod yn gallu teithio'n hawdd ac yn hyderus. Mae'r gwelliannau hyn yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i greu rheilffordd fwy hygyrch a chynhwysol."**



## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Bydd mwy o orsafoedd heb risiau, gan ei wneud yn haws i lawer o bobl anabl ac eraill ag anghenion mynediad i symud ar hyd y rheilffordd yn fwy annibynnol ac yn fwy hyderus. Mae hyn yn arbennig o fuddiol i ddefnyddwyr cadair olwyn, pobl â symudedd cyfyngedig, pobl sy'n defnyddio cymhorthion cerdded, ac unigolion ag anableddau anweladwy fel lludded cronig neu anhwylderau cydbwysedd, y mae grisiau neu wynebau anwastad yn gallu bod yn heriol iddynt. Er bod mynediad gwastad i drenau'n gyfyngedig o hyd, bydd cynllun hirdymor newydd ac arian arloesi dynodedig yn edrych ar ffyrdd ymarferol o gau'r bwlch rhwng y platfform a'r trên.

Caiff trenau newydd a threnau wedi'u hadnewyddu eu dylunio i safonau hygyrchedd uwch hefyd, gyda nodweddion mwy clir a chyson ar draws y rhwydwaith, wedi'u paratoi ar gyfer ehangu mynediad gwastad i drenau yn y dyfodol, fel y caniateir gan waith ar blatfformau. Bydd rhaglen dreigl, genedlaethol yn rhoi mwy o eglurder o ran gwelliannau yn y dyfodol ac yn sicrhau y bydd pobl anabl a chymunedau lleol yn helpu i lunio'r ffordd y mae hygyrchedd yn datblygu.








# 2

# Gwella dibynadwyedd cyfleusterau hygyrchedd allweddol

**Mae cyfleusterau annibynadwy a diffygiol mewn gorsafoedd yn effeithio ar yr holl deithwyr, ond gallant wneud teithio'n amhosibl i bobl anabl.**

Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Awst 2024, nododd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd o leiaf un man cymorth wedi torri yn 25% o'r gorsafoedd a archwiliwyd yn Lloegr.

Yn ystod y chwe mis o fis Hydref 2024 i fis Ebrill 2025, nododd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd 3.2 o ddiffygion fesul lifft ar gyfartaledd.

Yn ogystal â chanslo trenau, gall offer diffygiol wneud i bobl rhoi'r gorau i daith a gynlluniwyd.



a. **Gwella perfformiad lifftiau a grisiau symudol.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail, gwaith yn mynd rhagddo, i'w gwblhau ar ddiwedd 2027).

Mae Network Rail yn gwella dibynadwyedd a pherfformiad lifftiau a grisiau symudol yn yr holl orsafoedd ar draws y rhwydwaith rheilffordd cyfan, gan adlewyrchu ei gyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r holl lifftiau a grisiau symudol mewn gorsafoedd.

Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan dargedau cyflenwi clir a dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd. Mae Network Rail wedi rhannu ei gynllun gwella gyda'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, a fydd yn ei ddal i gyfrif am y gwaith cyflenwi.

Mae'r gwelliannau hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau y gall teithwyr anabl ac eraill sy'n dibynnu ar fynediad heb risiau deithio'n hyderus. Bydd y gwelliannau a fwriadwyd yn cynnwys:

- **Gwella'r gwaith cynnal a chadw:** Mae protocolau cynnal a chadw cynhwysfawr yn cael eu cyflwyno, sy'n rhoi blaenoriaeth i lifftiau y bydd sicrhau eu bod ar gael yn cael yr effaith fwyaf o ran galluogi teithwyr i gyrraedd trenau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys rhaglen gwerth £6 miliwn o waith uwchraddio wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r moddau methiant mwyaf cyffredin a sicrhau na fydd y lifftiau'n torri mor aml.
- **Ail-flaenoriaethu gwaith adnewyddu:** Bydd Network Rail yn ail-flaenoriaethu ei rhaglen adnewyddu er mwyn sicrhau y caiff yr offer hynaf, lleiaf dibynadwy ei adnewyddu'n gyntaf. Gosodir opsiynau amgen modern, mwy effeithlon er mwyn cyflawni dibynadwyedd hirdymor a lleihau'r anghenion o ran cynnal a chadw.
- **Mwy o fuddsoddiad mewn darnau sbâr.** Buddsoddwyd £5 miliwn ychwanegol i stocio darnau sbâr hanfodol ar gyfer cydrannau allweddol lifftiau a grisiau symudol. Bydd hyn yn lleihau nifer yr oriau gwasanaeth a gollwyd oherwydd oedi gwaith cynnal a chadw, ac yn galluogi i'r gwaith atgyweirio gael ei wneud yn fwy prydlon.
- **Cofnodi statws amser real:** Bydd yr holl lifftiau'n cynnwys technoleg adrodd statws amser real, a fydd yn caniatáu i deithwyr wirio a yw lifft yn weithredol cyn ac yn ystod eu taith. Bydd hyn hefyd yn gwella amserau ymateb trwy roi gwybod i dimau cynnal a chadw am anawsterau wrth iddynt godi.
- **Dyluniad lifft newydd wedi'i safoni:** Mae mwy na 700 o wahanol fathau o lifft yn gweithredu ar y rheilffordd sy'n gwneud gwaith cynnal a chadw yn gymhleth a drud. Bydd gwaith yn dechrau i leihau'r amrywiaeth mewn dyluniadau lifft ar draws y rhwydwaith, gan greu profiad mwy cyson i deithwyr a galluogi gwaith cynnal a chadw mwy effeithlon.
- **Cynlluniau wrth gefn:** Bydd rhaid i orsafoedd fod â chynlluniau clir wrth gefn ar waith ar gyfer lifft yn torri, gan sicrhau nad yw teithwyr yn methu â theithio.





# Astudiaeth achos: Pam fod lifftiau dibynadwy o bwyss

Mae lifftiau a grisiau symudol yn hanfodol ar gyfer mynediad heb risiau. Ond pan fyddant yn torri, gallant darfu ar deithio i deithwyr anabl, neu hyd yn oed eu hatal rhag teithio.

**Rhannodd y Paralympiad a defnyddiwr cadair olwyn Anne Wafula-Strike ei phrofiad**:

> **Nid oedd y lifft yn fy ngorsaf leol yn gweithio a methais gyfarfod pwysig. Pe byddwn i wedi cael gwybod ymlaen llaw, gallwn i fod wedi cynllunio o'i gwmpas."**

Mae'r gwelliannau y mae Network Rail yn eu gwneud yn hanfodol er mwyn osgoi profiadau fel un Anne, gan gynnwys sicrhau bod y data cywir ar gael yn hygyrch, er enghraifft pan fydd lifftiau wedi torri.



**b. Gwella perfformiad cyfleusterau hygyrchedd hanfodol eraill mewn gorsafoedd ac ar drenau.** (Arweinwyr cyflenwi: yr Adran Drafnidiaeth a'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, i gychwyn 2026).

Caiff y ffordd o fesur ansawdd a dibynadwyedd cyfleusterau hygyrchedd allweddol mewn gorsafoedd ac ar drenau ei gwella, gan leihau tarfu a rhoi mwy o hyder i deithwyr y bydd nodweddion hanfodol yn weithredol pan fydd arnynt eu hangen.

- **Mae gwelliannau i fannau cymorth yn mynd rhagddynt yn dilyn adolygiad gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd** fel bod teithwyr yn gallu dibynnu arnynt i roi gwybodaeth a chymorth yn fwy rheolaidd.

**Mae'r gwelliannau'n cynnwys:**

1. Gwell monitro gan gwmnïau trên, gan gynnwys monitro o bell, er mwyn canfod a thrwsio diffygion yn gyflymach.
2. Cysylltiadau gwell ar gyfer mannau cymorth mewn ardaloedd anghysbell.

- Wrth i gwmnïau trên ddychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus, rydym yn gwella sut caiff cyfleusterau hygyrchedd eu monitro a'u cynnal a chadw mewn gorsafoedd ac ar drenau, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau sy'n gyson uwch, gan ddal y cwmnïau trên i gyfrif am eu perfformiad yn rheolaidd.
- Rydym yn canfod cyfleoedd i flaenoriaethu gwaith cynnal a chadw cyfleusterau hygyrch allweddol ac i'w hatgyweirio'n gyflym, megis lifftiau, mannau cymorth/systemau galw am gymorth, a chyfleusterau Changing Places.

Byddai'r cynnig yn canolbwyntio ar ddynodi'r cyfleusterau allweddol hyn mewn lleoliadau effaith uchel i gael gwiriadau cynnal a chadw gorfodol ac amserau ymateb cyflymach. Byddai hyn yn sicrhau bod gwasanaethau hanfodol i deithwyr anabl yn cael eu trin ar frys, fel sydd ei angen arnynt.

## Amserlen y gwaith cyflenwi

2025


a — Gwella perfformiad lifftiau a grisiau symudol.

2026

b — Gwella perfformiad cyfleusterau hygyrchedd hanfodol eraill mewn gorsafoedd ac ar drenau.

2027







## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Wrth i GBR ddechrau gweithredu, caiff seilwaith a gweithrediadau eu dwyn ynghyd sy'n caniatáu mwy o drosolwg a rheolaeth dros y gwaith o drwsio a chynnal a chadw lifftiau, a'u dibynadwyedd. Yn y cyfnod cyn sefydlu GBR, bydd y camau gweithredu hyn megis adrodd yn well ar berfformiad yn canfod y lifftiau lleiaf dibynadwy a'r rhai sy'n achosi'r tarfu mwyaf, fel bod buddsoddiad a gwelliannau i gynnal a chadw yn mynd i'r lleoedd sydd eu hangen mwyaf.

Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ag amhariadau ar eu symudedd, defnyddwyr cadair olwyn, pobl ag anableddau anweladwy fel awtistiaeth neu boen cronig, a phobl â chŵn cymorth a allai dibynnu ar nodweddion fel lifftiau i lywio trwy orsafoedd yn ddiogel.

Bydd trosolwg rheoleiddiol cryfach yn dal Network Rail i gyfrif yn gyhoeddus, gan sicrhau bod dibynadwyedd lifftiau a grisiau symudol yn parhau'n brif flaenoriaeth i deithio hygyrch. Bydd cyfleusterau allweddol mewn gorsafoedd ar gael yn fwy cyson pan fydd ar gwsmeriaid eu hangen, gan leihau tarfu ar deithio a dileu'r pryder nad yw gwasanaethau hollbwysig yn weithredol.






Ein Map trywydd at reilffordd hygyrch

# 3

# Gwella cysondeb a dibynadwyedd gwasanaeth Cymorth i Deithwyr

**Mae Cymorth i Deithwyr yn wasanaeth sy'n caniatáu i deithwyr, yn enwedig teithwyr ag anableddau, unigolion hŷn, neu'r rhai â llai o symudedd, ofyn am gymorth ar gyfer eu taith.**

Mae'n wasanaeth hollbwysig i lawer o ddefnyddwyr y rheilffordd na fyddant yn gallu teithio fel arall. Er bod bodlonrwydd â'r gwasanaeth yn parhau'n uchel yn gyffredinol, gall methiannau i'r gwasanaeth gael effaith ddifrifol.

Nododd adroddiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd 2024–2025 bod 11% o deithwyr wedi adrodd na chawsant y cymorth yr oeddent wedi'i archebu.

Mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i dyfu, sy'n pwysleisio'r angen i wella'r gwaith o'i gyflenwi, a sicrhau bod yr holl deithwyr yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.



**a. Bydd cyflenwi Cam 5 Cymorth i Deithwyr,** yn cyflwyno nifer arwyddocaol o nodweddion a gwasanaethau newydd a ddyluniwyd i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid ac i'r staff sy'n eu cynorthwyo. Mae manylion y prif newidiadau, a'r gwelliannau a ddaw o'u herwydd, wedi'u rhestru isod (Arweinydd Cyflenwi: Rail Delivery Group (RDG) yn barhaus hyd at fis Mawrth 2027).

- **Gallu i gofrestru ar ôl cyrraedd gorsaf:** Bydd staff yn gallu defnyddio Ap Symudol y Staff i gofrestru teithwyr ar ôl iddynt gyrraedd gorsaf. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r staff mewn gorsafoedd ar hyd y daith am eu lleoliad a'u hamserau cyrraedd, gan helpu i sicrhau bod cymorth yn cael ei rhoi'n brydlon ar bob cam a lleihau'r perygl na fydd aelod o staff yn cwrdd â'r teithiwr fel y disgwylir.
- **Gwella'r broses olrhain cymorth:** Byddwn yn gwella'r broses olrhain cymorth i deithwyr wrth iddynt fynd ar y trên a'i gadael. Bydd hyn yn cefnogi gwaith adrodd mwy cywir ac yn cydgysylltu staff yn well, gan arwain at wasanaeth mwy dibynadwy.
- **Negeseua dwyffordd:** Cyflwynir nodwedd negeseua dwyffordd rhwng teithwyr a staff. Caiff hwn ei ddefnyddio pan fydd tarfu ar wasanaethau neu lle bydd angen cymorth yn syth.
- **Gwella'r broses o drosglwyddo gofal teithwyr rhwng timau cymorth gwahanol.** Cyflwynir proses drosglwyddo electronig newydd lle bo'n briodol er mwyn caniatáu i staff yr orsaf ddefnyddio Ap Symudol y Staff i roi gwybod i'r staff ar gam nesaf y daith bod y teithiwr ar y trên. Mae hyn yn rhyddhau staff i dreulio mwy o amser yn cynorthwyo teithwyr ac yn lleihau'r perygl na fydd rhywun yno i gwrdd â'r teithiwr.
- **Cadw seddi trwy'r ap:** Bydd teithwyr yn gallu cadw seddi a lleoedd i gadair olwyn yn uniongyrchol trwy'r Ap Symudol i Deithwyr, gan gynnwys dewisiadau o ran seddi. Dylai hyn olygu y bydd cwsmeriaid yn cael y trefniadau eistedd sydd eu hangen arnynt yn fwy aml.
- **Rheoli archebion yn fwy clyfar:** Bydd system newydd yn helpu staff i adnabod cofnodion dwbl yn hawdd, a gweithredu i'w lleihau neu ddileu, a sicrhau y caiff adnoddau staff eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol i gefnogi cwsmeriaid.
- **Dynodi adnoddau'n well:** Bydd cwmnïau trên yn cael offer gwell i reoli staff a rhoi tasgau cymorth iddynt. Bydd hyn yn helpu i sicrhau cymorth amserol ac effeithiol, ar gyfer ceisiadau a archebwyd ymlaen llaw, ac ar gyfer teithwyr 'Troi i Fyny a Mynd' (TUAG).
- **Hysbysiadau wedi'u haddasu:** Caiff gosodiadau hysbysu eu gwella fel bod teithwyr a staff yn gallu rheoli hysbysiadau yn ôl eu hanghenion. Bydd staff hefyd yn cael gwybod am ddiweddariadau pwysig er mwyn sicrhau y caiff camau amserol eu cymryd.


**b. Hyfforddiant safonol i'r diwydiant ar gyfer cymorth i deithwyr.** (Arweinwyr cyflenwi: Network Rail a RDG, peilota'r hyfforddiant newydd yn hydref 2025 cyn ei ddefnyddio'n ehangach wedi hynny).

Caiff pecyn hyfforddiant cenedlaethol newydd ei ddatblygu er mwyn sicrhau y caiff gwasanaeth Cymorth i Deithwyr ei gyflenwi'n gyson, ni waeth pa gwmni trên sy'n gyfrifol am daith y cwsmer. Bydd hyn yn helpu i wella cysondeb ac ansawdd y profiad i'r nifer fawr o deithwyr (65%) sy'n defnyddio mwy nag un cwmni trên i gwblhau eu taith. Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu trwy blatfform ar-lein hawdd-i-gyrraedd, gyda modiwlau dysgu byr ar gyfer yr holl staff newydd a hyfforddiant diweddaru rheolaidd i gynnal safonau uchel ar draws y rhwydwaith.

**c. Gosod arwyddion clir i'r man cyfarfod a lle i fynd ar y trên ar gyfer defnyddwyr Cymorth i Deithwyr.** (Arweinwyr cyflenwi: RDG a Network Rail mewn partneriaeth â'r cwmnïau trên, erbyn 2027).

Caiff hyd at £7.5 miliwn ei fuddsoddi i osod mannau cyfarfod Cymorth i Deithwyr ychwanegol a mannau ar blatfformau i fynd ar drenau, ac i wella arwyddion mewn gorsafoedd er mwyn sicrhau ei fod yn haws i deithwyr ddod o hyd iddynt. Bydd hyn yn sicrhau bod lleoliadau cymorth wedi'u nodi'n glir, yn gyson ar draws y rhwydwaith, ac yn weladwy o lwybrau gorsafoedd allweddol. Bydd y rhaglen hefyd yn diweddaru safonau dynodi llwybr ac arwyddion, fel bod yr holl orsafoedd newydd a gwaith diweddaru mawr yn defnyddio arferion gorau o ran dylunio hygyrch o'r cychwyn. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i deithwyr wybod lle yn union i fynd i gael cymorth, gan leihau'r straen o deithio a'i wneud yn fwy rhagweladwy.

## Amserlen y gwaith cyflenwi




**a** Cyflawni Cam 5 Cymorth i Deithwyr.

**b** Hyfforddiant Safon Diwydiant ar gyfer Cymorth i Deithwyr.

**c** Darparu arwyddion clir ar gyfer Man Cyfarfod Cymorth i Deithwyr a Lle ar y platfform i fynd ar y trên.

# Astudiaeth Achos: Pwysigrwydd Cymorth i Deithwyr yn ystod tarfu

Profodd Clive Woods, teithiwr ag amhariad ar y golwg sy'n teithio gyda'i gi tywys, oedi sylweddol wrth deithio o Lundain, oherwydd tarfu annisgwyl. Roedd yr orsaf yn orlawn, gan greu amgylchedd llawn straen ac a allai achosi dryswch. Fodd bynnag, cafwyd ymateb rhagorol gan y tîm Cymorth i Deithwyr.

Daeth y staff o hyd i le tawel a diogel i Clive aros yn gyflym, rhoi dŵr iddo ef a'i gi tywys ar ddiwrnod poeth, rhoi gwybod iddo'n rheolaidd am ddiweddariadau gwasanaeth, a'i dywys yn bersonol i'w drên pan ailddechreuodd y gwasanaethau. Er bod y trên yn brysur iawn, sicrhaodd gard y trên bod gan Clive sedd, gan sicrhau ei gysur a'i ddiogelwch trwy gydol y daith.

Er bod oedi'n heriol bob amser, mae profiad Clive yn pwysleisio pwysigrwydd y gwasanaeth Cymorth i Deithwyr – o ran hygyrchedd a hefyd trwy gynnig iddo gysur, urddas, a chymorth wedi'i bersonoli yn ystod y tarfu. Mae ei daith yn ein hatgoffa o'r gwahaniaeth mae staff tosturiol sydd wedi'u hyfforddi'n dda'n gallu ei wneud.





## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i leihau lefel y cymorth a fethwyd ac yn rhoi mwy o hyder i deithwyr anabl pan fyddant yn teithio ar y trên.

Trwy wneud y gwasanaeth hanfodol hwn yn fwy dibynadwy a chyson, gall mwy o bobl, yn enwedig y rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhwydwaith, neu sy'n teimlo'n nad ydynt yn gallu ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ystyried teithio ar drên yn ddewis ymarferol a hygyrch.





# 4 Gwella gwybodaeth i gwsmeriaid

**Mae gwybodaeth anghyson am hygyrchedd gorsafoedd yn broblem eang. I lawer o bobl anabl, mae manylion dibynadwy am gyfleusterau fel lifftiau, rampiau a thoiledau'n hanfodol i'r broses o gynllunio eu taith, ac i'w hyder wrth deithio.**

Dangosodd adroddiad diweddar gan Transport for All[7] bod 38% o'r rhai a ymatebodd yn dweud bod gwybodaeth hygyrchedd annigonol wedi eu rhwystro rhag teithio ar drên, gyda rhai'n rhoi'r gorau i daith ar ôl iddynt wynebu rhwystrau annisgwyl.

Mae anawsterau cyffredin yn cynnwys arwyddion aneglur, fformatau print neu ddigidol anhygyrch, a chyhoeddiadau sain gwael – sy'n effeithio'n benodol ar deithwyr ag amhariad ar y golwg a theithwyr niwrowahanol.

Mae diffyg adnoddau Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a gorddibyniaeth ar adnoddau sain hefyd yn creu rhwystrau sylweddol i deithwyr byddar a theithwyr trwm eu clyw.



a. **Adroddiad ar dreial Mannau Croeso a chynllun ar gyfer gosod mwy o Fannau Croeso.** (Arweinydd cyflenwi: RDG/yr Adran Drafnidiaeth).

Gyda chymorth yr Adran Drafnidiaeth, cynhaliwyd treial gan RDG i ganfod a fyddai Mannau Croeso newydd yn gwella profiad teithwyr mewn gorsafoedd, trwy gynnig canolbwynt cyson lle gallant gael gwybodaeth a chymorth, a chysylltu â staff. Dangosodd y treial, a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2025, y gallai Mannau Croeso bod yn ffordd effeithiol o wneud gwybodaeth teithio'n fwy hygyrch, gan lenwi bylchau a grëwyd gan y cyhoeddiadau sain a gweledol traddodiadol mewn gorsafoedd. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad y treial, bydd yr Adran Drafnidiaeth a RDG yn bwrw ymlaen â'r gwaith cynllunio i osod Mannau Croeso ar draws y rhwydwaith, gan weithio gyda chwmnïau trên a Network Rail i asesu lleoliadau a niferoedd terfynol y Mannau Croeso ar draws y rhwydwaith.

b. **Cystadleuaeth Innovate UK: Gwybodaeth hygyrch pan fydd bysiau'n rhedeg yn lle trenau.** (Arweinydd cyflenwi: yr Adran Drafnidiaeth, erbyn mis Mawrth 2026).

Mae'r Adran Drafnidiaeth wedi creu partneriaeth gydag asiantaeth Innovate UK i ariannu cystadleuaeth arloesi sy'n canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth o wybodaeth hygyrch ar fysiau sy'n rhedeg yn lle trenau. Mae gan y prosiectau a ariennir hyd at fis Mawrth 2026 i ddatblygu a chyflenwi cynhyrchion sy'n barod i'r farchnad a fydd yn ei wneud yn haws i'r bysiau sy'n rhedeg yn lle trenau gydymffurfio â rheoliadau allweddol trwy ddarparu cyhoeddiadau sain a gweledol hygyrch ar y bws.

c. **Cynnig teithiau cylch cyfan rhithwir er mwyn llywio'r gorsafoedd mwyaf o ran maint a chymhlethdod yn well.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail, i'w gwblhau gwanwyn 2027).

Caiff teithiau 3D rhithwir ar gyfer 250 o'r gorsafoedd mwyaf prysur a chymhleth eu cyflwyno i gefnogi teithio mwy hyderus ac annibynnol.

Lluniwyd y teithiau digidol cylch cyfan hyn i helpu teithwyr, yn enwedig y rhai a allai fod yn bryderus am deithio, llywio gorsafoedd mwy o faint yn haws. Bydd y teithiau'n cynnig arweiniad gweledol manwl cyn teithio o gyfleusterau allweddol fel toiledau, lifftiau, grisiau symudol, ac allanfeydd. Mae'n gallu bod yn anodd dod o hyd i'r rhain yn aml, yn enwedig os na fydd y teithiwr yn gyfarwydd â'r orsaf, ac mae'r orsaf honno'n orlawn.





**Cynllunydd teithio hygyrch newydd ar gyfer y rheilffyrdd a theithiau aml-ddull.** (Arweinydd cyflenwi: RDG, erbyn haf 2027).


Bydd cynllunydd teithio hygyrch newydd yn lansio yn haf 2027. I ddechrau, bydd yn cynnig gwybodaeth wedi'i theilwra am deithiau trên – gan gynnwys cyfleusterau mewn gorsafoedd a nodweddion ar y trên fel toiledau hygyrch, seddi â blaenoriaeth, a lleoedd i gadeiriau olwyn. Bydd wedyn yn tyfu i gynnwys manylion cysylltiadau'r filltir gyntaf a'r filltir olaf, fel bysiau, tramiau, ac opsiynau teithio llesol, yn amodol ar argaeledd data.

d. **Gwella'r wybodaeth fyw am gyfleusterau allweddol sydd ar gael, mewn fformatau hygyrch.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail/RDG, erbyn 2026).

Mae sawl brosiect ar y gweill i wella'r wybodaeth fyw sydd ar gael i deithwyr am gyfleusterau hanfodol mewn gorsafoedd fel lifftiau, grisiau symudol, a thoiledau hygyrch.

Bydd y wybodaeth hon ar gael ar nifer o sianelau – gan gynnwys platfformau ar-lein, o staff yr orsaf, a gwasanaeth cyfieithu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) newydd – gan sicrhau y bydd yr holl deithwyr yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf trwy gydol y daith.

## Amserlen y gwaith cyflenwi



**Mae'r gwelliannau a gynlluniwyd yn cynnwys:**

- Diweddariadau statws lifft amser real gyda gwybodaeth fwy cyson ac arweiniad i lwybrau gwahanol pan na fydd lifftiau'n weithredol.
- Dechrau ar y gwaith ar gyfer adrodd amser real am y toiledau sydd ar gael (mewn gorsafoedd ac ar drenau) a lleoedd parcio ceir. Erbyn diwedd 2026.
- Gwasanaeth gwybodaeth newydd i roi diweddariadau byw am orsafoedd gorlawn neu darfu, gan helpu teithwyr i gynllunio neu ddewis llwybrau gwahanol lle bo angen.








## Astudiaeth achos: Teithiau rhithwir o orsafoedd yn gwneud teithio ar drên yn fwy hygyrch

Mae cwmni Greater Anglia wedi creu teithiau rhithwir o 19 o'i orsafoedd mwyaf prysur, gyda dau arall ar y ffordd, ynghyd â theithiau o'r mathau gwahanol o drên sydd ganddo. Mae'r teithiau rhyngweithiol hyn yn caniatáu i gwsmeriaid edrych ar gynllun gorsafoedd ymlaen llaw, a'u helpu i gynllunio'u teithiau'n hyderus. Gall hwn fod yn newid byd i lawer o deithwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion mynediad.

**Dywedodd Georgie Hill-Jones, sydd ag awtistiaeth ac amhariad ar y clyw:**

> **"Mae gwybod ymlaen llaw beth i'w ddisgwyl a lle mae angen imi fynd yn dileu cymaint o'r straen a'r gorbryder byddaf yn eu teimlo wrth deithio fel arfer. Mae wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i gyrraedd gorsaf a gwybod yn union le i fynd."**

Trwy leihau ansicrwydd a datblygu cynefindra, mae'r teithiau rhithwir hyn yn helpu i ddileu rhwystrau rhag teithio ac yn creu profiad mwy cynhwysol i'r holl deithwyr.

## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Bydd teithio ar drên yn haws ac yn fwy cysurus i deithwyr anabl ac i unrhyw un sydd angen cymorth ychwanegol arno. Bydd y gwelliannau hyn yn ei gwneud yn haws i gynllunio ymlaen llaw ac i lywio gorsafoedd, gyda gwybodaeth fwy eglur a dibynadwy am gyfleusterau allweddol fel lifftiau, toiledau a seddi hygyrch – ar-lein ac yn yr orsaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl ag amhariad ar y golwg sy'n dibynnu ar gyhoeddiadau sain ac arwyddion cyffyrddol, teithwyr niwrowahanol sy'n elwa o gael gwybodaeth eglur a chyson, a'r rhai sy'n dioddef o orbryder neu sydd ag amhariad gwybyddol y gallai fod angen tawelu eu meddyliau trwy ddiweddariadau amser real ac arweiniad cam wrth gam ar hyd y daith.

Bydd offer newydd fel y cynllunydd teithio hygyrch a theithiau rhithwir o orsafoedd yn helpu i deithwyr deimlo'n fwy hyderus, yn enwedig pan fyddant yn ymweld â gorsafoedd mawr neu anghyfarwydd. Bydd diweddariadau amser real a chyhoeddiadau gwell, gan gynnwys ar fysiau sy'n rhedeg yn lle trenau, yn helpu i sicrhau bod pawb yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ac yn teithio'n fwy hwylus ac annibynnol.





# 5

# Gwella ymwybyddiaeth o’r consesiynau sydd ar gael a gwella hygyrchedd y sianelau manwerthu.

**Gall llywio system docynnau rheilffordd y DU fod yn anodd i lawer o deithwyr, gan effeithio ar eu hyder ac ar hygyrchedd.**

Mae strwythurau tocynnau cymhleth, opsiynau tocynnau aneglur, a pheiriannau tocynnau anhygyrch i gyd yn cyfrannu at y dryswch.

Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o’r consesiynau sydd ar gael chwaith. Er enghraifft, roedd 271,000 o Gardiau Rheilffordd Person Anabl ar waith ym mis Hydref 2024, sydd ond yn gyfran fach o’r 3.7 miliwn o bobl sy’n derbyn Taliadau Annibyniaeth Personol, sef un o’r budd-daliadau anabledd cymwys. Mae’r camau gweithredu canlynol yn cael eu cymryd i fynd i’r afael â hyn:



**a. Gwelliannau i'r Cerdyn Rheilffordd Person Anabl.** Caiff newidiadau eu gwneud i delerau'r Cerdyn Rheilffordd Person Anabl i sicrhau teithio mwy cynhwysol, fforddiadwy a hygyrch i deithwyr anabl.

- **Ymestyn cymhwysedd y Cerdyn** i gynnwys ystod ehangach o anableddau, gan gynnwys cyflyrau gweledig ac anweledig. Caiff y broses hon ei rhoi ar waith fesul cam, ym mis Mawrth 2026 a mis Medi 2026, ar sail cymhlethdod asesu'r meini prawf newydd. Bydd y meini prawf a ddiweddarwyd yn alinio ag arferion gorau ym maes cynhwysiant anableddau, gan sicrhau y caiff anghenion teithio mwy o bobl eu cefnogi, ac y byddant yn elwa o brisiau tocynnau â disgownt.
- Er mwyn gwneud y Cerdyn yn haws i'w defnyddio, mae RDG wedi ymrwymo i alluogi mwy o fanwerthwyr tocynnau a chynhyrchion trên i werthu Cardiau Rheilffordd Person Anabl. Byddai'r estyniad hwn yn rhoi mwy o hyblygrwydd a dewis i gwsmeriaid o ran sut a lle i brynu'r cerdyn rheilffordd ac yn gwella ymwybyddiaeth o'i fuddion. Er bod dyddiadau'r cynllun a chyfranogiad ynddo'n amodol ar drafodaethau masnachol â manwerthwyr, mae RDG wedi cwblhau'r holl waith datblygu technegol sydd ei angen i hwyluso'r newid hwn.
- **Gwelliannau i beiriannau gwerthu tocynnau.** (Arweinydd cyflenwi: RDG, erbyn diwedd 2026).
- Rydym yn gwneud gwelliannau i beiriannau gwerthu tocynnau i wella ymarferoldeb a chysondeb ar draws y rhwydwaith peiriannau a gyda sianelau manwerthu eraill.

  Mae peiriannau gwerthu tocynnau eisoes yn cynnig opsiwn i deithwyr sydd arnynt angen defnyddio arian parod, neu'r rhai nad ydynt yn defnyddio ffonau clyfar (sy'n nifer arbennig o uchel ymysg pobl anabl).

  Mae gwelliannau'n rhoi ystyriaeth i safonau dylunio hygyrch ac yn gwella cysondeb ar draws y peiriannau, fel bod pobl yn gwybod beth i'w ddisgwyl ac yn gallu prynu tocynnau'n annibynnol yn haws.

  Bydd y gwaith hwn hefyd yn cynnwys cynnig tocynnau Advance i'w prynu ar beiriannau gwerthu tocynnau, y gellid lleihau eu cost ymhellach trwy ddefnyddio Cerdyn Rheilffordd Person Anabl, gan alluogi'r holl deithwyr i gael y pris gorau am eu taith.








**b. Platfform Manwerthu Ar-lein GBR.** (Arweinydd cyflenwi: yr Adran Drafnidiaeth/Tocynnau a Manwerthu (FTR) y Rheilffyrdd Cenedlaethol, dyddiad cyflenwi i'w gadarnhau).

- Fel y cyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2025, bydd GBR yn manwerthu ar-lein, gan ddod â gwefannau tocynnau'r cwmnïau trên unigol at ei gilydd. Bydd y platfform newydd yn diwallu safonau dylunio hygyrch.

## Amserlen y gwaith cyflenwi






# Astudiaeth achos: Codi ymwybyddiaeth o ddisgowntiau ar y rheilffordd trwy gynllun y Bathodyn Glas

Er mwyn helpu mwy o bobl anabl i gael disgowntiau teithio, mae Transport Scotland yn cynnwys gwybodaeth am Gerdyn Rheilffordd Person Anabl mewn llyfryn a roddir i'r holl ddeiliaid Bathodyn Glas newydd. Mae'r cam syml hwn yn gwneud gwahaniaeth mawr.

**Mae gan Margaret Carruthers anabledd anweladwy ac nid yw'n defnyddio'r trên yn rheolaidd. Rhannodd sut wnaeth y cynllun hwn effeithio arni:**

> **"Mae gwybod y gallwn i ddefnyddio disgownt i deithio ar drên, a oedd yn ddrutach na ddefnyddio fy nghar yn fy marn i, yn ei wneud yn bosibl imi ddefnyddio'r trên. Bellach, mae'n opsiwn mwy fforddiadwy, pleserus a chynaliadwy i mi. Pe na fyddwn i wedi gwneud cais am Fathodyn Glas, fyddwn i byth wedi gwybod mod i'n gymwys."**

Trwy godi ymwybyddiaeth ar yr amser cywir, mae'r fenter hon yn agor teithio ar drên i fyny i fwy o bobl.

Ein Map trywydd at reilffordd hygyrch

## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Bydd prynu tocynnau a chael disgowntiau'n dod yn haws ac yn fwy cynhwysol.

Bydd mwy o bobl yn gallu cael budd o'r Cerdyn Rheilffordd Person Anabl oherwydd bod mwy o bobl yn gymwys i'w gael, a bydd yn cael ei werthu'n fwy eang gan fwy o fanwerthwyr trydydd parti.

Bydd platfform manwerthu ar-lein newydd yn disodli'r nifer fawr o wefannau unigol sydd gan y cwmnïau trên, a fydd yn rhoi sylw llawn i ystyriaethau hygyrchedd.

Nod y newidiadau hyn yw lleihau dryswch, gwella hyder, a gwneud teithio ar drên yn fwy hygyrch i bawb.






# 6

## Gwella’r broses o fonitro profiadau teithio pobl anabl a sut caiff y diwydiant ei ddal i gyfrif.

**Er bod sefydliadau fel y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, cwmnïau trên a Network Rail yn monitro profiadau teithwyr anabl, mae bylchau yn y ffordd caiff y data hwn ei gasglu a’i adrodd o hyd.**

Mae’n gallu bod yn anodd cwyno, sy’n golygu y caiff adborth pwysig ei golli’n aml, ac mae’r data cyfyngedig sydd ar gael ar gyfer cymorth na gafodd ei archebu’n ei gwneud yn anodd olrhain methiannau gwasanaethu.

Mae dealltwriaeth glir o bryd a pham bod pethau’n mynd o chwith yn hanfodol i yrru gwelliannau ystyrlon a helpu’r diwydiant i ddiwallu ei ymrwymiadau o ran hygyrchedd.



a. **Gwelliannau i system casglu data Cymorth i Deithwyr a chyflwyno Fframwaith Meincnodi Perfformiad newydd.** (Caiff y gwaith cyflenwi ei arwain gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, erbyn hydref 2025).

   Mae'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd wedi ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant i wella sut caiff data ei gasglu, ei gyhoeddi, a'i defnyddio i adeiladu sail tystiolaeth gryfach o brofiadau teithwyr anabl.

   Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yr ystadegau cyntaf ar gyfer niferoedd yr achosion o gymorth 'Troi i Fyny a Mynd' a gofnodwyd.

   Mae'r Swyddfa'n cyflwyno fframwaith meincnodi newydd ar gyfer Cymorth i Deithwyr. Lluniwyd y fframwaith i drefnu cwmnïau trên yn ôl ansawdd a chysondeb y cymorth a ddarparwyd ar draws y rhwydwaith, ac i asesu gallu'r perfformwyr gwaethaf i wella.

   Caiff yr adroddiad meincnodi cyntaf ei gyhoeddi yn hydref 2025, a bydd yr asesiad yn llywio penderfyniadau'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd ynghylch unrhyw gamau rheoleiddiol pellach. Bydd angen i'r Cwmnïau Trên gynnwys camau i wella methiannau Cymorth i Deithwyr yn eu Cynlluniau Busnes blynyddol, gan ganolbwyntio ar wella ansawdd gwasanaeth a lleihau nifer yr achosion pan fethwyd rhoi cymorth.

b. **Diweddaru gwaith ymchwil i brofiadau defnyddwyr y rheilffordd sy'n anabl a'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd.** (Arweinydd cyflenwi: yr Adran Drafnidiaeth, erbyn diwedd 2025.)

   Mae prosiect ymchwil dau-gam yn mynd rhagddo i wella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth deithio ar drên, gan gynnwys safbwyntiau pobl sy'n defnyddio'r rheilffordd a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio.

   Cwblhawyd y cam ansoddol cyntaf, a oedd yn cynnwys cyfweliadau a theithiau gyda chydymaith, ym mis Mai 2025[8]. Bydd yr ail gam, sef arolwg meintiol cenedlaethol, yn cyhoeddi ei ganfyddiadau yn gynnar yn 2026.

   Bydd y gwaith ymchwil yn cynnig data arolwg manwl, sy'n gynrychiadol yn genedlaethol, am y rhwystrau rhag teithio ar drên, gan gynnwys yr hyn sy'n atal teithwyr rhag defnyddio'r rheilffordd. Bydd y canlyniadau'n gallu llywio llawer o welliannau tymor hirach tu hwnt i gwmpas y Map trywydd cychwynnol hwn.

c. **Arolwg newydd o Brofiad Cwsmeriaid y Rheilffyrdd Cenedlaethol.** (Arweinwyr cyflenwi: yr Adran Drafnidiaeth/RDG, erbyn haf 2025).

   Bydd Arolwg newydd o Brofiad Cwsmeriaid y Rheilffyrdd Cenedlaethol yn lansio ym mis Gorffennaf 2025. Bydd yr arolwg yn cynnig safbwyntiau manwl, rheolaidd o brofiadau teithwyr anabl ar gamau allweddol o'r daith - o gynllunio i archebu i'r orsaf, ar y trên a chymorth gan staff, yn enwedig yn ystod tarfu. Bydd y safbwyntiau hyn yn ein helpu i lunio gwelliannau mwy targededig ac effeithiol i wasanaethau.






d. **Gwella'r prosesau cwynion ac iawndal.** (Arweinydd cyflenwi: y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, erbyn hydref 2025 ac yn barhaus).

   Bob blwyddyn, bydd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn adolygu'r camau y mae'r cwmnïau trên yn eu cymryd i wella mynediad teithwyr anabl i'w prosesau ymdrin â chwynion, ac i ddysgu o gwynion sy'n mynd i'r afael â materion hygyrchedd, gan fwydo i broses o wella parhaus.

   Mae iawndal yn ddull y gall cwmnïau trên ei ddefnyddio i gywiro'r sefyllfa i deithiwr lle nad oeddent wedi llwyddo i gyflawni gwasanaeth o safon briodol.

   Yn gynharach eleni, buodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn ymgynghori ar gynigion i ddiwygio'r gofynion mewn perthynas â rhoi iawndal i deithwyr lle mae cymorth a archebwyd wedi methu. Caiff canlyniad yr ymgynghoriad ei gyhoeddi yn hydref 2025.

## Amserlen y gwaith cyflenwi





# Astudiaeth achos: Safbwyntiau ar hygyrchedd o'r Arolwg o Brofiadau Cwsmeriaid y Rheilffyrdd (RCXS)

Mae'r Arolwg o Brofiadau Cwsmeriaid y Rheilffyrdd RCXS) yn fenter gynhwysfawr, ddiwydiant-gyfan wedi'i hanelu at gasglu safbwyntiau cadarn, cyson ar brofiadau'r cwsmer ledled rhwydwaith rheilffyrdd y DU. Hygyrchedd yw un o brif feysydd ffocws yr Arolwg – sef deall profiadau teithwyr anabl a'r rhai ag anghenion iechyd neu symudedd, o gynllunio'r daith i gyrraedd eu cyrchfan.

Mae'n nodi a oedd teithwyr wedi chwilio am wybodaeth hygyrchedd cyn teithio, pa mor hawdd oedd dod o hyd i'r wybodaeth, a pha sianelau a ddefnyddiwyd. Mae'n olrhain gyda phwy roedd y person anabl yn teithio, gan gynnwys gofalwyr, anifeiliaid cymorth, a chyfarpar symudedd, ac yn cofnodi'r math o gymorth a oedd ei angen arnynt, a gafodd ei archebu, ei gyflenwi, a pha mor fodlon oedd y teithwyr ar bob cam. Mae'r arolwg hefyd yn casglu adborth am fynediad i orsafoedd (arwyddion, lifftiau, llwybrau heb risiau), cyfleusterau ar y trên (seddi, lle i fagiau, mynediad i gadair olwyn), ac a fethwyd i roi cymorth oherwydd oedi. Mae data demograffig ac iechyd yn helpu i adnabod yr effaith caiff amodau gwahanol ar deithio, ac a ddefnyddiodd y teithiwr Cerdyn Rheilffordd Person Anabl.



## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Bydd yr Arolwg o Brofiad Cwsmeriaid y Rheilffyrdd yn rhoi safbwyntiau pwysig inni am deithiau go iawn, gan ein helpu i dargedu gwelliannau lle mae mwyaf eu hangen.

Bydd y gwaith ymchwil cynhwysfawr a chyfredol i brofiadau pobl anabl sy'n defnyddio'r rheilffordd a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio yn taflu goleuni ar yr hyn sy'n rhwystro pobl rhag teithio ar y trên, ac yn rhoi dealltwriaeth ar sail tystiolaeth ar sut i wella profiadau pobl anabl o'r rheilffordd.

Bydd y canfyddiadau hyn yn llunio'n uniongyrchol strategaeth hirdymor Great British Railways i wneud teithio ar drên yn fwy hygyrch i bawb.







# Data hygyrchedd ar draws y sector

| Beth yw'r enw arno? | Pa ddata a gasglwyd? | Gan bwy? | At ba ddibenion? |
|---|---|---|---|
| Arolwg Profiad Cwsmeriaid National Rail | Safbwyntiau manwl gan deithwyr o'u profiadau ar bwyntiau allweddol o'r daith. | Network Rail | Mae NR yn defnyddio data'r arolwg i lunio gwelliannau gwasanaeth mwy targededig ac effeithiol. |
| Gwaith ymchwil wedi'i ddiweddaru i brofiadau pobl anabl sy'n defnyddio'r rheilffordd a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio | Safbwyntiau pobl anabl sy'n defnyddio'r trên a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio o ran teithio ar drên. | Yr Adran Drafnidiaeth | Mae'r Adran Drafnidiaeth yn defnyddio'r gwaith ymchwil i lywio gwelliannau i wasanaethau trên yn y tymor hirach. |
| Gwaith ymchwil wedi'i ddiweddaru i brofiadau pobl anabl sy'n defnyddio'r rheilffordd a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio | Nifer y ceisiadau a archebwyd, a'r rhai nas archebwyd, gan gynnwys y rhai a gwblhawyd yn llawn, yn rhannol, neu heb eu cwblhau o gwbl.<br><br>Caiff y sianel archebu a ddefnyddiwyd a'r cymorth a ofynnwyd amdano eu cofnodi hefyd. | Rail Delivery Group | Mae RDG yn defnyddio'r data i wella profiad y rheilffordd i gwsmeriaid sydd angen cymorth arnynt. Mae'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn defnyddio'r data i fesur y galw am wasanaeth Cymorth i Deithwyr a'i berfformiad, i ganfod tueddiadau neu ddiffygion o ran cyflenwi gwasanaeth, a sicrhau gwelliannau dan fframwaith Polisïau Teithio Hygyrch. Caiff y data ei ddefnyddio hefyd i lywio Fframwaith Meincnodi Perfformiad y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. |
| Gwaith ymchwil 'Dewis Penodol' ar welliannau i hygyrchedd | I ba raddau mae teithwyr yn gwerthfawrogi mathau gwahanol o hygyrchedd. | Network Rail | Mae NR yn defnyddio'r data a gasglwyd i gryfhau penderfyniadau o ran cyllid a buddsoddi yn y dyfodol. |
| Archwiliad Hygyrchedd Gorsafoedd | Asesiad ar seilwaith gorsafoedd rheilffordd sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd. Mae'r gwaith yn cynnwys gwerthuso argaeledd a defnyddioldeb cyfleusterau fel toiledau, swyddfeydd neu beiriannau tocynnau, mannau eistedd, lleoedd parcio ceir (gan gynnwys meintiau), a nodweddion llwybr heb risiau fel graddiant rampiau. | Yr Adran Drafnidiaeth – cwmnïau trên yn cynnal data | Defnyddir y data gan ddiwydiant y rheilffordd i ganfod rhwystrau i hygyrchedd, blaenoriaethu gwelliannau, a darparu gwybodaeth glir a dibynadwy i aelodau'r cyhoedd am hygyrchedd gorsafoedd. |







# 7

## Sut fyddwn ni'n rhoi newid diwylliannol ar waith yn y diwydiant rheilffordd a sicrhau y caiff hygyrchedd ei flaenoriaethu

**Mae mwy o her ynghlwm â diwylliant y diwydiant rheilffordd o ran hygyrchedd. Rhaid ei ystyried yn rhan greiddiol o brofiad teithwyr – nid yn ychwanegiad.**

Mae hygyrchedd yn ddyletswydd ar bawb ohonom, sydd wedi'i ymwreiddio ar draws holl rolau a lefelau'r diwydiant, o bolisi a chynllunio i gyflenwi gwasanaethau ar y rheng-flaen.

Mae newid diwylliant gwirioneddol yn mynd tu hwnt i wella hyfforddiant neu gyrraedd safonau gwasanaeth. Mae'n gofyn am ymagwedd fwy cynhwysol at y gwaith o lunio gwasanaethau – un sy'n cynnwys pobl â phrofiad byw o lunio cynhyrchion a gwasanaethau ac sy'n symud tu hwnt i gydymffurfiaeth fel yr unig fesur llwyddiant.

Mae hefyd yn galw am well ddealltwriaeth o fuddion ehangach a gwerth rheilffordd sy'n wirioneddol gynhwysol, a'r gallu i'w mesur.



a. **a. Sicrhau bod gan staff y sgiliau a hyfforddiant angenrheidiol i gyflenwi gwasanaethau cynhwysol.** (Arweinwyr cyflenwi: Network Rail a RDG, yn lansio yn 2027).

Mae staff y rheilffordd yn rhan hanfodol o roi cymorth i deithwyr, ac mae darparu hyfforddiant ar anableddau a chydraddoldeb yn orfodol dan Bolisïau Teithio Hygyrch yr holl gwmnïau trên. Mae'r hyfforddiant hwn yn amrywio rhwng y cwmnïau trên ar hyn o bryd, sy'n gallu arwain at wasanaeth anghyson. Mae darparu hyfforddiant cyson o ansawdd yn rhoi i'r staff y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i berfformio ar eu gorau, a chyflenwi'r math o wasanaeth y mae teithwyr yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu.

- Caiff rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr, newydd ar gydraddoldeb anabledd ei datblygu a'i rhoi ar waith fesul cam ar draws rhwydwaith y rheilffyrdd, gan adeiladu ar y gofynion a bennwyd gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd. Yn hollbwysig, caiff y rhaglen ei chyd-lunio a'i chyflenwi mewn partneriaeth â phobl anabl er mwyn sicrhau y bydd yn adlewyrchu profiadau byw gwirioneddol. Caiff yr hyfforddiant ei ddiweddaru'n rheolaidd a bydd yn cynnwys topigau allweddol, gan gynnwys:
    - Y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl pan fyddant yn defnyddio'r rheilffordd
    - Deddfwriaeth cydraddoldeb a hygyrchedd.
    - Rheoliadau sy'n benodol i'r rheilffordd
    - Arferion gorau o ran darparu cymorth a chyflenwi gwasanaeth cynhwysol i gwsmeriaid mewn gorsafoedd ac ar drenau. Bydd yr ymagwedd hon yn helpu i staff ddeall anghenion teithwyr yn well ac i gyflenwi gwasanaeth mwy cyson, parchus a hygyrch.
- Ar hyn o bryd, rydym yn gwerthuso'r posibilrwydd o weithredu Cynllun Achredu newydd ar gyfer gwasanaethau cynhwysol (Nod Barcud BS ISO 22458 BSI). Byddai hwn yn gymwys i gwmnïau trên wrth iddynt ddod dan berchnogaeth gyhoeddus. Byddai'r fenter hon yn disodli rhaglen gydnabyddiaeth flaenorol a arweiniwyd gan y llywodraeth sef y Cynllun Arweinwyr Trafnidiaeth Cynhwysol, ac yn anelu at sicrhau y caiff yr ymrwymiadau a nodir yn y Map trywydd hwn, gan gynnwys hyfforddiant i staff a darparu gwasanaethau cynhwysol, eu hintegreiddio'n effeithiol a chyson.

I deithwyr, mae hyn y golygu y byddai cwmnïau trên yn cael eu hasesu'n annibynnol yn ôl Safon Brydeinig gydnabyddedig er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion yr holl deithwyr.

Trwy hyn, bydd mwy o hyder gan deithwyr y caiff eu hanghenion eu deall a'u diwallu, wrth archebu tocynnau, derbyn cymorth neu ddefnyddio cyfleusterau ar y trên neu mewn gorsafoedd.





b. **Gwaith ymchwil 'Dewis Penodol' newydd, ar welliannau hygyrchedd.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail, i'w gyhoeddi hydref 2025).

Mae'r diwydiant rheilffordd wedi cynnal gwaith ymchwil dewis penodol penodedig am y tro cyntaf, er mwyn deall i ba raddau mae teithwyr yn gwerthfawrogi mathau gwahanol o welliannau i hygyrchedd. Mae'r math hwn o waith ymchwil yn gofyn i bobl ddewis rhwng senarios teithio gwahanol, gan eu helpu i ddangos pa welliannau sydd o'r pwys mwyaf iddynt a pham. Bydd y canlyniadau'n rhoi dealltwriaeth gref ar sail tystiolaeth o ba newidiadau sy'n cael yr effaith fwyaf ar brofiadau teithwyr, ac yn cefnogi nodau ehangach y llywodraeth i dyfu a moderneiddio'r rheilffordd. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i gryfhau penderfyniadau o ran cyllid a buddsoddi yn y dyfodol, gan sicrhau y caiff adnoddau eu dynodi lle byddant yn cael y budd mwyaf.

c. **Safonau Diwydiant, offer a hyfforddiant ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.** (Arweinydd cyflenwi: Network Rail, erbyn 2026).

Caiff cysondeb o ran y ffordd y mae'r diwydiant rheilffordd yn asesu effaith y penderfyniadau a wneir ynghylch pobl anabl ei wella trwy safoni'r ymagwedd at Asesiadau Effaith Amrywiaeth ar draws yr holl brosiectau a gwasanaethau. Bydd hyn yn golygu y caiff ymagwedd gyson, sy'n canolbwyntio ar deithwyr, ar gyfer asesu'r effaith ar bobl anabl ei chyflawni trwy sicrhau bod yr offer, safonau, a hyfforddiant ar gael yn fwy eang i gwmnïau trên, a chaiff polisïau clir o ran sut a phryd y dylid ymgynghori â phobl anabl yn ystod yr asesiadau hyn eu pennu.

d. **Cryfhau Paneli Hygyrchedd er mwyn ymwreiddio safbwyntiau teithwyr anabl yn y gwaith cyflenwi dyddiol.** (Arweinwyr cyflenwi: Network Rail/ cwmnïau trên DFTO, yn lansio 2027).

Er mwyn sicrhau bod safbwyntiau teithwyr anabl wedi'u hymwreiddio'n gyson ar draws y system rheilffordd, caiff camau gweithredu eu cymryd i wella effaith ac effeithiolrwydd y paneli hygyrchedd presennol.

Bydd y dull hwn yn ymwreiddio safbwyntiau teithwyr anabl yn y gwaith cyflenwi dyddiol a gwelliant hirdymor y gwasanaethau trên. Yn ogystal, caiff strwythur paneli wedi'i gryfhau ei sefydlu ar draws y rhwydwaith i gefnogi'r amcan hon ymhellach.

- **Paneli Hygyrchedd Rhanbarthol:** Bydd Network Rail a chwmnïau trên yn gweithio tuag at sefydlu Cyd-Baneli Hygyrchedd Rhanbarthol [Cynghrair] i gynghori ar flaenoriaethau rhanbarthol. Bydd y paneli hyn yn cynnwys pobl anabl, cynrychiolwyr o sefydliadau pobl anabl, a rhanddeiliaid y diwydiant rheilffordd. Trwy ddod â phenderfynwyr seilwaith a gweithrediadol â phrofiad byw at ei gilydd, bydd y paneli hyn yn cefnogi'r gwaith o gyd-lunio gwelliannau wedi'u teilwra i gyd-destunau rhanbarthol. Bydd paneli'r cwmnïau trên yn bwydo i mewn i'r paneli rhanbarthol.

- **Panel Hygyrchedd Cenedlaethol.** Bydd Panel Hygyrchedd Cenedlaethol yn cael ei sefydlu i oruchwylio a chynghori ar faterion o bwys cenedlaethol sy'n effeithio ar deithwyr anabl ledled y DU. Bydd y panel yn cynnwys:
  - Pobl anabl a chynrychiolwyr sefydliadau cenedlaethol i bobl anabl
  - Cadeiryddion y paneli rhanbarthol gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru
  - Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl (DPTAC)
  - The Mobility and Access Committee for Scotland (MACS).

Drwy gysylltu trafodaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, bydd y panel yn gwella cyfathrebu ar draws y system ac yn rhoi mwy o gysondeb, brys a chydgysylltiad i'r materion hygyrchedd sy'n effeithio ar deithwyr ar draws y wlad.

Gyda'i gilydd, mae'r paneli hyn yn cynrychioli symudiad diwylliannol a strwythurol yn y ffordd yr ystyrir hygyrchedd – yn symud tu hwnt i ymgynghori at bartneriaeth ystyrlon, system-gyfan gyda phobl anabl ar bob lefel. Bydd y strwythur newydd hon yn sicrhau llwybr clir ar gyfer adborth, uwchgyfeirio, a gweithredu, gan helpu i gyflenwi rheilffordd sy'n gweithio'n wirioneddol i bawb.

e. **Arian hygyrchedd gan Innovation i gyflymu cyfleoedd ar gyfer gwella.** (Arweinydd cyflenwi: Innovate UK gyda chefnogaeth GBRX, yn lansio 2026).

Byddwn yn lansio cystadleuaeth wedi'i hariannu er mwyn helpu i symud ymlaen ddatrysiadau arloesol, cynhwysol i anawsterau hygyrchedd ar draws y rheilffordd. Bydd y gronfa hon yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu, treialu, a thyfu technolegau newydd, modelau gwasanaeth, a dulliau seilwaith er mwyn dileu'r rhwystrau sy'n atal pobl anabl rhag teithio. Er mwyn sicrhau y caiff y gronfa effaith ystyrlon, bydd y Grŵp Hygyrchedd Cenedlaethol yn chwarae rhan allweddol trwy helpu i lunio cwmpas a themâu a phenderfynu sut caiff y gronfa ei defnyddio, yn sicrhau bod prosiectau'n adlewyrchu anghenion a phrofiadau pobl anabl yn y byd go iawn, gan flaenoriaethu:

- Cynlluniau peilot sy'n gwella teithio annibynnol, mynediad i wasanaeth, a theithio â chymorth
- Arloesi o ran dynodi llwybr, rheoli gofodau, ac offer cymorth digidol
- Prosiectau sy'n dangos yn glir y cawsant eu llunio ar y cyd â phobl anabl.





## Amserlen y gwaith cyflenwi

**2025**

**b** Gwaith ymchwil 'Dewis Penodol' newydd ar welliannau i hygyrchedd.

**2026**

**e** Cyllid hygyrchedd gan Innovation i gyflymu cyfleoedd ar gyfer gwella.

**c** Safonau Diwydiant, offer a hyfforddiant ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

**2027**

**d** Cryfhau Paneli Hygyrchedd i ymwreiddio safbwyntiau pobl anabl yn y gwaith cyflenwi dyddiol.

**a** Sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau cynhwysol.

## Beth fydd y gwelliannau hyn yn ei olygu i gwsmeriaid

Bydd teithwyr yn gweld newid i'r ffordd mae'r rheilffordd yn ystyried hygyrchedd – gan symud o dasg gydymffurfio i ran greiddiol o gyflenwi gwasanaeth gwych.

Bydd staff wedi'u hyfforddi'n well, bydd gan bobl anabl lais cryfach yn y penderfyniadau, a chaiff gwelliannau yn y dyfodol eu llunio gan brofiad byw a thystiolaeth gadarn ynghylch y gwerth economaidd ehangach o wella hygyrchedd.

# Astudiaeth achos: Safonau gwasanaeth cynhwysol

Mae Greater Anglia yn falch o fod wedi cyrraedd ISO 22458 sef marc barcud BSI ar gyfer dylunio a chyflenwi gwasanaeth cynhwysol. Ymgeisiodd y cwmni am y marc barcud er mwyn derbyn cydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i gynorthwyo cwsmeriaid ag anghenion o ran hygyrchedd a'r rhai oedd yn agored i niwed. Ond mae ISO 22458 yn fwy nag arwydd o anrhydedd. Daeth yn gatalydd ar gyfer newid diwylliannol, gan droi hygyrchedd o fod yn gyfrifoldeb adrannol i feddylfryd cwmni-gyfan.

Cefnogwyd yr achrediad yn llawn gan y bwrdd a'r uwch reolwyr o'r cychwyn cyntaf. Gydag ymrwymiad ariannu wedi'i gytuno arno'n syth, roedd y neges yn glir – mae hwn o bwys. Trwy'r gefnogaeth hon ar y lefel uchaf, cafodd timau ar draws y busnes yr hyder a'r ysgogiad i gymryd perchnogaeth ac ymwreiddio meddwl cynhwysol yn eu gwaith bob dydd.

**Esboniodd Nir Barak, Rheolwr Amgylchedd ac Ynni Greater Anglia:**

> **Nid yw hygyrchedd yn cael ei drin yn gais arbennig mwyach. Bellach, mae'r hyn a ystyriwyd yn "ychwanegol" wedi troi'n ddull gweithredu i gwmni Great Anglia. Symudodd y diwylliant o gyflenwi cymorth ar gais i dybio bod pawb yn haeddu mynediad di-dor, bob tro. Yn weithwyr rheng-flaen neu du ôl i'r llenni, mae cyd-ddealltwriaeth nad menter yw cynhwysiant ond rhan o hunaniaeth y cwmni. Mae'r symudiad hwnnw o ran meddylfryd wedi bod yr un mor werthfawr â'r ardystiad ei hun."**



Ein Map trywydd at reilffordd hygyrch

# Amserlen y gwaith cyflenwi

| | 2025 | 2026 | 2027 |
|---|---|---|---|
| **Gwella hygyrchedd ein gorsafoedd a threnau** | Cynyddu nifer y gorsafoedd â llwybr heb risiau i'r platfform<br><br>Cyllideb Gwaith Mân, yn cefnogi prosiectau aml-flwyddyn | Canllawiau dylunio cynhwysol ar gyfer trenau newydd a threnau wedi'u hadnewyddu<br><br>Canllawiau dylunio cynhwysol ar gyfer trenau newydd a threnau wedi'u hadnewyddu<br><br>Strategaeth hirdymor ar gyfer cerbydau a seilwaith | |
| **Gwella dibynadwyedd gwasanaethau trên a chyfleusterau hygyrchedd allweddol** | Gwella perfformiad lifftiau a grisiau symudol | Gwella perfformiad cyfleusterau hygyrchedd hanfodol eraill mewn gorsafoedd ac ar drenau | |
| **Gwella cysondeb a dibynadwyedd gwasanaeth Cymorth i Deithwyr** | Hyfforddiant Safon Diwydiant ar gyfer Cymorth i Deithwyr<br><br>Cyflawni Cam 5 Cymorth i Deithwyr | Yn darparu arwyddion clir ar gyfer Man Cyfarfod Cymorth i Deithwyr a Lle ar y platfform i fynd ar y trên | |
| **Gwella gwybodaeth i gwsmeriaid** | Adroddiad ar dreial Mannau Croeso a rhoi Mannau Croeso ar waith fesul cam<br><br>Cystadleuaeth Innovate UK: Gwybodaeth hygyrch ar fysiau sy'n rhedeg yn lle trenau<br><br>Darparu teithiau rhithwir cylch cyfan ar gyfer llywio'r gorsafoedd mwyaf a mwyaf cymhleth yn well | Gwella argaeledd gwybodaeth byw am gyfleusterau allweddol, mewn fformatau hygyrch | Cynllunydd Teithio Hygyrch ar gy y rheilffyrdd a theithio aml-ddull |
| **Gwella ymwybyddiaeth o'r consesiynau sydd ar gael a gwella hygyrchedd sianelau manwerthu** | Gwelliannau i beiriannau gwerthu tocynnau<br><br>Platfform manwerthu ar-lein GBR | Gwelliannau cam un a cham dau i'r Cerdyn Rheilffordd Person Anabl | |
| **Gwella'r dulliau o fonitro profiadau teithio pobl anabl a sut caiff y diwydiant ei ddal i gyfrif** | Arolwg newydd o Brofiad Cwsmeriaid National Rail<br><br>Gwelliannau i'r gwaith o gasglu data Cymorth i Deithwyr a chyflwyno Fframwaith Meincnodi Perfformiad newydd<br><br>Gwella'r prosesau Ymdrin â Chwynion ac Iawndal<br><br>Gwaith ymchwil wedi'i ddiweddaru i brofiadau pobl anabl sy'n defnyddio'r rheilffordd a'r rhai nad ydynt yn ei defnyddio | | |
| **Sut y byddwn yn gweithredu newid diwylliannol yn y diwydiant rheilffordd ac yn sicrhau y caiff hygyrchedd ei flaenoriaethu** | Gwaith ymchwil 'Dewis Penodol' newydd ar welliannau i hygyrchedd | Cyllid hygyrchedd gan Innovation i gyflymu cyfleoedd ar gyfer gwella<br><br>Safonau Diwydiant, offer a hyfforddiant ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Cryfhau Paneli Hygyrchedd i ymwreiddio safbwyntiau pobl anabl≈yn y gwaith cyflenwi dyddiol<br><br>Sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau cynhwysol |

# Y cam nesaf: Great British Railways

**Mae'r llywodraeth hon wedi pennu uchelgais clir ar gyfer ein rheilffyrdd: i'w gwneud yn addas at ddyfodol Prydain, ac mae Great British Railways (GBR) wrth galon cynlluniau'r llywodraeth. Bydd GBR yn gwmni newydd dan berchnogaeth gyhoeddus a fydd wrth galon y diwydiant rheilffordd wedi'i ddiwygio. Bydd yn gyfrifol am y seilwaith a'r gwasanaethau sy'n rhedeg arno.**

## Beth yw'r berthynas rhwng y Map trywydd a GBR?

Mae'r camau gweithredu a nodwyd yn y Map trywydd hwn yn dangos nad ydym yn aros i sefydlu GBR. Rydym yn gweithio tuag at deithiau mwy cynhwysol, mwy hygyrch yn awr. Mae'r llywodraeth wedi bod yn glir iawn am hynny. Ond mae pendraw i'r Map trywydd hwn. Mae'r cyd-destun yn newid wrth inni drawsnewid i GBR, ac er bod llawer o'r heriau'r un peth, mae'r cyfleoedd i fynd i'r afael â hwy yn wahanol. Wrth inni edrych ar ddatblygu rheilffordd sy'n addas i ddyfodol Prydain, mae'r llywodraeth hefyd yn datblygu strategaethau tymor hirach, gan gynnwys y Strategaeth Reilffordd Hirdymor (LTRS) a'r Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Integredig (INTS). Wedi ei sefydlu, bydd hefyd angen i GBR bennu ei gynlluniau strategol ei hun ar gyfer cyflenwi hygyrchedd sy'n manteisio'n llwyr ar fod yn gwmni rheilffordd integredig. Mae angen gwaith ac ymgysylltu sylweddol â phobl anabl o hyd i roi gwedd derfynol ar y cynigion hyn, ond rydym wedi ymrwymo i gyflenwi rheilffordd fwy hygyrch.

## Beth allwn ni ei ddisgwyl gan GBR?

Bydd GBR yn cyfuno tirwedd ddarniog gyfredol y diwydiant ac yn gweithredu fel 'meddwl cyfeiriol' i'r rheilffordd, gall bennu cyfeiriad clir a chyson sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid i'r diwydiant na fu'n bosibl dan y trefniadau presennol. Bydd GBR yn gyfrifol am y system gyfan, gan gynnwys y gorsafoedd a'r trenau sy'n rhedeg ar y rheilffordd, felly bydd yn gallu dwyn pwysau ar y broses gaffael, gan benderfynu sut i brynu a blaenoriaethu adnoddau ar raddfa llawer mwy.

O'r herwydd, ceir prosesau cyflenwi mwy effeithlon, defnydd gwell o ddata a barn, a'r gallu i edrych ar y darlun cyfan. Bydd hefyd yn golygu safonau cyson ar draws y rhwydwaith, gan wella gwasanaethau a helpu i fynd i'r afael â'r pwyntiau anodd presennol (fel trosglwyddo Cymorth i Deithwyr rhwng cwmnïau trên). Yn bwysig, bydd hefyd yn cryfhau atebolrwydd a thryloywder, gan ei wneud yn glir pwy sy'n gyfrifol am berfformiad ac anawsterau o ran profiadau'r teithiwr.

Fodd bynnag, mae cymaint yn cael ei ddatblygu o hyd. Yn gynharach yn 2025, cynaliasom ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion deddfwriaethol a fydd yn ein caniatáu i sefydlu GBR. Mae ein hymateb i'r adborth hwnnw wedi'i gynnwys yn yr ymateb i'r ymgynghoriad[9]. Mae'r adborth a gafwyd gan deithwyr anabl a sefydliadau hygyrchedd wedi ein helpu i lunio'n cynigion terfynol. Mae'r ymateb hwn yn dangos yn glir bod hygyrchedd wedi bod, ac yn parhau i fod, wrth galon y gwaith o lunio GBR a'r rheilffordd ddiwygiedig.

Mae manylion yn cael eu datblygu o hyd, y mae ar rai ohonynt angen prosesu seneddol neu ymgynghori cyhoeddus, ond mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn glir:

- Bydd GBR yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus, gan gynnwys gweithredu gwasanaethau i deithwyr a rheoli seilwaith y rhwydwaith ym Mhrydain Fawr.
- Bydd y Ddeddf Rheilffyrdd yn cynnwys dyletswydd i deithwyr a hygyrchedd yn y ddeddfwriaeth sylfaenol er mwyn sicrhau bod GBR yn ystyried anghenion a buddiannau teithwyr anabl wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol.
- Rydym yn creu corff gwarchod newydd i deithwyr a fydd â rôl amlwg o ran hygyrchedd, trwy fonitro sut caiff gwasanaethau eu cyflenwi i deithwyr anabl, ac eirioli dros welliannau pan fydd anawsterau'n codi.
- Bydd rhaid i GBR gydymffurfio â thelerau ei drwydded hefyd. Er bod manylion y drwydded honno yn destun ymgynghori cyhoeddus a gwaith polisi, bydd hygyrchedd yn rhan hollbwysig, nad yw'n agored i drafodaeth, o'r gofynion hyn, gan gynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid hygyrchedd.
- Bydd GBR yn sicrhau y caiff lleisiau pobl anabl eu cynnwys mewn penderfyniadau, gyda chynrychiolaeth ar lefel y bwrdd. Nid yw'r dyluniad manwl o ymgysylltu ar lefel gweithredol wedi'i gadarnhau eto, ond bydd yn ystyriaeth bwysig.

## Meysydd i'w hystyried yn y dyfodol

Mae'r Map trywydd hwn yn nodi'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd i gyflenwi rheilffordd hygyrch. Mae hefyd yn creu sail i GBR adeiladu arni. Mae'r cwmpas hwn wedi'i ffocysu'n golygu bod rhanddeiliaid wedi adnabod meysydd na chafodd eu cynnwys yn y gwaith o baratoi'r Map trywydd. Nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw waith yn cael ei wneud o ran y meysydd hyn, nac yn eu gwneud yn ddibwys.

Mae'r materion hyn, fel gwella cysondeb ar draws Cynlluniau Teithio Hygyrch, ystyried ble a phryd yr ydym yn rhoi cyfrif am dueddiadau poblogaeth ehangach a phwysau, a sut yr ydym yn sicrhau adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, er enghraifft, yn feysydd ystyriaeth gweithgar ar hyn o bryd. Byddant hefyd yn parhau i fod yn ystyriaethau i GBR.

# Rhestr dermau

| | |
|---|---|
| **Mynediad i Bawb** | Rhaglen a ariannwyd gan y llywodraeth wedi'i anelu at greu llwybrau hygyrch, heb rwystrau i a rhwng platfformau mewn gorsafoedd trên. Fel arfer, mae'r gwaith hwn yn cynnwys gosod lifftiau, rampiau, a chyflawni gwaith adnewyddu cysylltiedig i wella hygyrchedd gorsafoedd. |
| **Hygyrchedd** | Yn cyfeirio at allu'r holl deithwyr – ni waeth beth fo eu hanabledd neu amodau personol – i deithio'n annibynnol heb wynebu rhwystrau neu anawsterau a achosir oherwydd dyluniad, cyflenwi gwasanaethau, neu seilwaith. |
| **Polisi Teithio Hygyrch (ATP)** | Polisi a ddatblygwyd gan bob cwmni trên a chwmni gorsaf trwyddedig sy'n nodi'r gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael i deithwyr anabl, sut i ofyn am gymorth, a beth i'w wneud os aiff rhywbeth o chwith. Caiff y Polisïau eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR), sydd hefyd yn monitro cydymffurfiaeth. |
| **Safon Brydeinig (BS)** | Set o fanylebau technegol neu ganllawiau a ddatblygwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSI), sy'n sicrhau bod cynhyrchion, gwasanaethau a systemau'n ddiogel, yn gyson ac o ansawdd, ar draws sectorau gwahanol gan gynnwys trafnidiaeth. |
| **Consesiwn** | Tocyn am bris is neu â disgownt a gynigir i grwpiau penodol o bobl fel teithwyr anabl, oedolion hŷn, neu fyfyrwyr. |
| **Yr Adran Drafnidiaeth (DfT)** | Adran llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am reoli'r rhwydwaith trafnidiaeth yn Lloegr, ac am oruchwylio rhai agweddau ar drafnidiaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dan arweinyddiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. |
| **Anabledd** | Dan gyfraith y DU, ystyrir person yn anabl os oes arno amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithrediadau dyddiol arferol. Mae hyn yn cynnwys cyflyrau dirywiol a rhai amhariadau a gydnabyddir yn awtomatig dan y Ddeddf Cydraddoldeb. |





# Rhestr dermau

| | |
|---|---|
| **Cerdyn Rheilffordd Person Anabl** | Cerdyn disgownt sy'n cynnig tynnu traean i ffwrdd o gost tocynnau rheilffordd i deithwyr anabl cymwys. Os yw'r person yn teithio gydag oedolyn arall (e.e. gofalwr neu gydymaith), mae'r ddau deithiwr yn cael y disgownt. Yn ddilys ar draws rhwydwaith rheilffyrdd y DU. |
| **Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant Pobl Anabl (DPTAC)** | Pwyllgor arbenigol annibynnol a grëwyd dan Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Mae'n cynghori'r llywodraeth ar anghenion trafnidiaeth pobl anabl, gan weithio at y weledigaeth y dylai fod gan bobl anabl mynediad hafal i drafnidiaeth. |
| **Asesiad o'r Effaith ar Amrywiaeth (DIA)** | Neu Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Asesiad yn sicrhau nad yw polisïau, gwasanaethau, a phenderfyniadau'n rhoi unigolion neu grwpiau dan anfantais, a'u bod yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant. |
| **Great British Railways (GBR)** | Corff cyhoeddus newydd a fydd yn goruchwylio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn Lloegr, yn rheoli refeniw tocynnau, yn cynllunio gwasanaethau, ac yn pennu prisiau ac amserlenni. Bydd hefyd yn gyfrifol am seilwaith y rheilffordd yn yr Alban. |
| **Man cymorth** | Man cyfathrebu a leolwyd fel arfer ar blatfformau neu fynedfeydd gorsafoedd, sy'n caniatáu i deithwyr gysylltu â staff i gael gwybodaeth am drenau, cymorth, neu mewn achos brys. |
| **Innovate UK** | Asiantaeth arloesi'r DU sy'n cefnogi busnesau i ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau, a thechnolegau newydd. Mae'n cynnig arian a chyllid i feithrin arloesi a thwf. |
| **Network Rail** | Sefydliad sector cyhoeddus dan yr Adran Drafnidiaeth sy'n berchen ar seilwaith y rheilffordd ac yn ei gynnal a chadw, gan gynnwys y traciau, signalau, pontydd, twneli, a llawer o'r prif orsafoedd. |
| **Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR)** | Y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer rheilffyrdd Prydain, sy'n sicrhau diogelwch, perfformiad economaidd, a chydymffurfiaeth â safonau. Mae hefyd yn monitro'r Priffyrdd Cenedlaethol. |

# Rhestr dermau

| | |
|---|---|
| **Cwmnïau trên** | Term cyffredinol ar gyfer y cwmnïau sy'n rhedeg gwasanaethau trên i deithwyr ac yn rheoli gorsafoedd ar brydles gan Network Rail. |
| **Cymorth i Deithwyr** | Gwasanaeth am ddim sy'n cynnig help i deithwyr hŷn a theithwyr anabl sy'n teithio ar drên. Mae cymorth yn gallu cynnwys help i fynd ar y trên, help i ddod oddi ar y trên, cario bagiau, a llywio gorsafoedd. |
| **Ap Cymorth i Deithwyr** | Ap ar ddyfeisiau symudol sy'n caniatáu i deithwyr anabl neu eu gofalwyr archebu cymorth ar gyfer teithiau trên ledled Prydain Fawr. |
| **Rail Delivery Group (RDG)** | Sefydliad aelodaeth ar gyfer cwmnïau trenau i deithwyr a chwmnïau trenau nwyddau. Mae RDG yn rheoli gwasanaethau allweddol fel system Cymorth i Deithwyr, Ymholiadau'r Rheilffyrdd Cenedlaethol, a chynllun Cerdyn Rheilffordd Person Anabl. |
| **Trefn Ansawdd Gwasanaeth** | Cyfres o safonau a mesurau perfformiad wedi'u dylunio i sicrhau gwaith cyflenwi gwasanaeth o ansawdd. Yn y diwydiant rheilffordd, mae hyn yn cynnwys gwasanaethau i gwsmeriaid, dibynadwyedd, glendid, a hygyrchedd. |
| **Seilwaith gorsafoedd** | Yr elfennau corfforol a thechnegol sy'n cynorthwyo ymarferoldeb a hygyrchedd mewn gorsaf – fel lifftiau, rampiau, toiledau hygyrch, mannau cymorth, cyhoeddiadau sain, a mannau aros. |
| **Llwybr heb risiau** | Yn cyfeirio at orsafoedd lle mae teithwyr yn gallu cyrraedd platfformau heb ddefnyddio grisiau neu risiau symudol, diolch i lifftiau, rampiau neu fynediad gwastad. |





# Rhestr dermau

| | |
|---|---|
| **Cwmnïau trên** | Cwmnïau trwyddedig sy'n gyfrifol am redeg gwasanaethau trên i deithwyr ac am reoli cyfleusterau mewn gorsafoedd. Mae'r cwmnïau trên yn gweithredu dan gontractau neu fasnachfreintiau a gytunwyd gan awdurdodau llywodraethol. |
| **Transport Focus** | Corff gwarchod annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr trafnidiaeth ar draws y DU. Mae'n cynnal gwaith ymchwil ac ymgyrchoedd i wella gwasanaethau ac yn eirioli dros hawliau teithwyr. |
| **Transport for All** | Sefydliad a arweinir gan bobl anabl sy'n ymgyrchu dros system drafnidiaeth gynhwysol. Mae'n gweithio gydag aelodau i eirioli dros fynediad cyfartal ac i ddylanwadu ar benderfyniadau polisi. |
| **Trafnidiaeth Cymru** | Cwmni nid-er-elw dan berchnogaeth lawn Llywodraeth Cymru, sy'n cyflenwi seilwaith trafnidiaeth a phrosiectau gwasanaeth ledled Cymru. |
| **Transport Scotland** | Asiantaeth drafnidiaeth genedlaethol Llywodraeth yr Alban, sy'n gyfrifol am gyflawni polisïau trafnidiaeth, prosiectau, a chynllunio ar draws yr Alban. |
| **Troi i Fyny a Mynd** | Gwasanaeth cymorth hyblyg sy'n caniatáu i deithwyr ofyn am gymorth ar ôl cyrraedd yr orsaf, heb ei archebu ymlaen llaw. Gall y cymorth sydd ar gael ddibynnu ar bresenoldeb staff a chyfleusterau'r orsaf. |

# Ôl-nodiadau


1 Dosbarthiad A neu B1, data Archwilio Hygyrchedd, y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd

2 Yr Adran Drafnidiaeth, Adroddiad Blynyddol - Rail Vehicle Accessibility Regulations Exemption Orders: **https://assets.publishing.service.gov.uk/media/643e8b0922ef3b000c66f3fc/rvar-annual-report-2020- print.pdf**

3 Tablau data DIS0402a a NTS0711a yr Arolwg Teithio Cenedlaethol: **https://www.gov.uk/government/collections/national-travel-survey-statistics**

4 Gwaith ymchwil yr Adran Drafnidiaeth ar brofiadau pobl anabl nad ydynt yn defnyddio'r rheilffordd, **https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cbp-9602/**

5 DfT, Research on experiences of disabled non-users of rail, **https://assets.publishing.service.gov.uk/media/62a840e0e90e0703a1a2243b/research-onexperiences-of-disabled-non-users-of-rail.pdf (p19)**

6 Mae'r Ombwdsmon Rheilffyrdd yn wasanaeth annibynnol y gall teithwyr ei ddefnyddio i ddatrys cwynion am gwmnïau trên. Mae'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn dal yr Ombwdsmon Rheilffyrdd i gyfrif am ei ofynion contractiol ac yn rhoi arweiniad a chymorth i sicrhau fod y gwasanaeth yn datblygu'n barhaus ac yn gwella dros amser.

7 Transport for All, Are we there yet? Barriers to transport for disabled people in 2023, **https://www.transportforall.org.uk/news/are-we-there-yet-barriers-to-transport-for-disabled-peoplein-2023/**

8 Gov.uk, Profiadau pobl anabl o'r rheilffordd, **https://www.gov.uk/government/publications/disabled-peoples-experiences-of-rail**

9 Gov.uk, A railway fit for Britain's future **https://www.gov.uk/ government/consultations/a-railway-fit-for-britains-future**

UK Government